ASIANTAETH SAFONAU BWYD

Ymgynghoriad ar Strategaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer 2010 i 2015

YMGYNGHORIAD YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD

Teitl: Strategaeth ASB Arfaethedig ar gyfer 2010 i 2015

TUDALEN GRYNODEB YR YMGYNGHORIAD

Dyddiad lansio'r ymgynghoriad:	Dyddiad cau ar gyfer ymatebion:
Dydd Llun 16 Mawrth 2009	Dydd Gwener 5 Mehefin 2009

Pwy fydd â'r diddordeb mwyaf yn yr ymgynghoriad hwn?

Adrannau ac Asiantaethau'r Llywodraeth, cyrff gorfodi bwyd, y diwydiant bwyd, grwpiau cynrychioli defnyddwyr, y gymuned wyddoniaeth

Beth yw pwnc yr ymgynghoriad hwn?

Strategaeth newydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer y cyfnod 2010 i 2015, gan gynnwys ein hanghenion am wyddoniaeth, tystiolaeth a dadansoddiad

Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

Sefydlwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 gyda phrif ddiben o 'Amddiffyn iechyd y cyhoedd rhag peryglon a allai godi mewn cysylltiad â bwyta bwyd, a hefyd amddiffyn buddiannau defnyddwyr mewn cysylltiad â bwyd'.

Er mwyn cyflawni hyn mae'n rhaid i'r sefydliad weithredu a blaenoriaethu'n effeithiol. Dull rheoli yw cynllun strategol i sicrhau ein bod yn glir am ein cyfeiriad o ran ein hamgylchedd. Yna gallwn neilltuo adnoddau i ddilyn y strategaeth hon a bod mewn gwell sefyllfa i ymateb i'r amgylchedd newidiol.

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at:

Bethan Campbell	**Cyfeiriad post:**
Cangen Strategaeth	**1B Aviation House**
ASIANTAETH SAFONAU BWYD	**125 Kingsway**
Ffôn: 020 7276 8635	**London**
Ebost: bethan.campbell@foodstandards.gsi.gov.uk	**WC2B 6NH**

A gynhwyswyd Asesiad o Effaith gyda'r ymgynghoriad hwn?	**Do** ☒	**Naddo** ☐

Ceir fersiwn Saesneg o'r pecyn ymgynghori yn www.food.gov.uk/consultations

Cysylltwch â ni os ydych chi angen y dogfennau ymgynghori mewn fformat arall – megis clywedol, print bras, Braille – neu ieithoedd eraill.

STRATEGAETH ARFAETHEDIG YR ASB AR GYFER 2010 I 2015

RHAGAIR Y CADEIRYDD

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cynnig cyfeiriad strategol yr Asiantaeth hyd 2015. Yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), mae ein gweledigaeth wrth wraidd ein holl waith: *"bwyd diogel a bwyta'n iach i bawb"*. Mae deng mlynedd wedi mynd heibio ers sefydlu'r Asiantaeth ac rydym bellach yn awyddus i glywed eich barn ar strategaeth yr Asiantaeth ar gyfer 2010 - 2015.

O dan arweiniad cyffredinol y Bwrdd, mae Tim Smith, Prif Weithredwr yr Asiantaeth, wedi arwain y gwaith o ddatblygu'r cynigion hyn ar ein strategaeth. Maent eisoes yn adlewyrchu'r gwaith trafod mawr sydd wedi digwydd. Rydym wedi gwrando ar farn rhanddeiliaid sy'n perthyn i sefydliadau defnyddwyr ac iechyd, y diwydiant bwyd, awdurdodau lleol, gwyddonwyr ac academyddion. Mae nifer o staff yr ASB wedi bod yn rhan o'r broses ochr yn ochr â defnyddwyr drwy gyfrwng ein fforymau defnyddwyr. Mae cydweithwyr yn Llywodraethau holl wledydd y DU wedi bod yn gweithio gyda ni hefyd ac mae'r Bwrdd wedi bod yn trafod ar sawl achlysur. Mae hi bellach yn amser ehangu'r drafodaeth yn ymgynghoriad ffurfiol.

Hyd yma, mae ein gwaith wedi arwain at set o gynigion a nodir ar dudalen 11. Wrth nodi'r cynigion hyn, rydym yn meddwl ei bod hi'n bwysig canolbwyntio gwaith yr Asiantaeth ar nifer cymharol fach o ganlyniadau ac amcanion lefel uchel a mynd ati i adlewyrchu'r newid sydd wedi bod yn agwedd ac ymddygiad defnyddwyr, yn ogystal â'r newidiadau i'r cyfleoedd a'r risgiau sy'n perthyn i'r gadwyn fwyd. Ein nod yw cynnal momentwm wrth ddarparu gwelliannau parhaus ym maes diogelwch bwyd ac iechyd deietegol i ddefnyddwyr. Rydym yn awyddus i glywed eich barn am yr hyn y dylem fod yn canolbwyntio arno yn ystod y 5 mlynedd sydd i ddod.

Mae 12 mis i fynd cyn i'r cynllun strategol ddod i rym ond rydym yn mynd ati'n fwriadol i ymgynghori'n gynharach yn y broses nag ydym wedi'i wneud yn y gorffennol. Mae digon o gyfle i herio, trafod a chynnig sylwadau ar y cynigion hyn.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych chi.



Deirdre Hutton

Cadeirydd

CYFLWYNIAD Y PRIF WEITHREDWR

Yn ein cynigion ar gyfer strategaeth newydd yr Asiantaeth, rydym yn disgrifio'r prif feysydd yr ydym yn bwriadu gweithio arnynt rhwng 2010 – 2015. Mae'r rhain wedi'u strwythuro o amgylch diben craidd yr Asiantaeth sef bwyd diogel a bwyta'n iach i bawb. Ymunais â'r Asiantaeth fel Prif Weithredwr flwyddyn yn ôl ac mae hi wedi bod yn amlwg o'r dechrau bod staff a rhanddeiliaid yn cefnogi'r diben hwn i'r carn.

Gellir barnu bod cynllun strategol newydd yn llwyddiannus os oes modd ei drafod yn effeithiol gydag unrhyw un y tu allan i sefydliad yn ogystal ag ynddi. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydw i wedi cyflwyno seilwaith newydd ar gyfer y cynllun strategol sy'n cefnogi ein diben clir. Y prif wahaniaeth rhwng y cynllun strategol hwn a'r cynllun cyfredol yw ein bod bellach wedi cyflwyno set o 'ganlyniadau'. Rwyf i o'r farn ein bod ni am gynllun sy'n cynnwys nifer bach o gynigion syml sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn rhoi llun clir i bobl o'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Rhaid adeiladu hyn ar ymwybyddiaeth gadarn a phenodol o anghenion ein rhanddeiliaid - yn bennaf y defnyddiwr. Rhaid i'r defnyddiwr fod wrth galon popeth a wnawn. Byddwn yn datblygu mesurau a thargedau o fewn y canlyniadau hyn ar ôl clywed beth yw eich barn am y cynigion hyn.

Yn y pen draw, wrth roi ymrwymiadau ein cynllun strategol ar waith, rhaid i ni fod yn realistig am yr adnoddau sydd ar gael. Mae hyn yn golygu meddwl yn ofalus am flaenoriaethau, edrych ar strwythur a ffyrdd o weithio. Mae'n gwbl hanfodol yn hyn o beth ein bod ni'n glir am yr hyn na fyddwn ni'n ei wneud yn ogystal â'r hyn y byddwn ni'n ei wneud.

Datblygwyd y strategaeth hon gan gofio am rôl a chyfraniad unigryw yr Asiantaeth i faes polisi bwyd y DU. Byddaf yn sicrhau y caiff y cynllun strategol ei roi ar waith i adlewyrchu'r gwahanol flaenoriaethau a threfniadau ar draws holl wledydd y DU. Byddaf hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraethau'r gwledydd hynny er mwyn sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu diwallu o fewn fframwaith strategol ehangach y DU.

Mae gwaith da wedi'i wneud eisoes. Da chi, manteisiwch ar y cyfle i fod yn rhan o'r broses ymgynghori hon.

Tim J Smith
Prif Weithredwr

Cyflwyniad (Tudalen 6)

Ein Cynllun Strategol cyfredol (Tudalen 7)

Datblygu ein Strategaeth: dull seiliedig ar dystiolaeth (Tudalen 7)

Ein diben, canlyniadau arfaethedig a blaenoriaethau (Tudalen 9)

Anghenion gwyddoniaeth, tystiolaeth a dadansoddi (Tudalen 13)

Y broses ymgynghori (Tudalen 14)

Atodiad A: Gwybodaeth Safonol yr Ymgynghoriad

Atodiad B: Sail Tystiolaeth ar gyfer y Blaenoriaethau Arfaethedig

Atodiad C: Asesiad o Effaith Drafft

Atodiad D: Rhestr o Bawb sydd â Diddordeb

CYFLWYNIAD

1. Er ein bod yn canolbwyntio ar gyflawni'r ymrwymiadau yn ein Cynllun Strategol cyfredol, rhaid i ni hefyd ddal i edrych ymlaen, rhagweld a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd bellach yn datblygu ei Chynllun Strategol pum mlynedd nesaf ar gyfer y cyfnod 2010 i 2015.

2. Crëwyd yr ASB yn 2000 yn adran o'r llywodraeth heb weinidog a lywodraethir gan Fwrdd a benodwyd i weithredu er lles y cyhoedd, gyda'r gorchwyl o amddiffyn defnyddwyr ynglŷn â bwyd[1]. Rydym yn gorff sy'n gweithredu ledled y DU eang gyda phrif swyddfeydd yn Llundain, Aberdeen, Caerdydd, Belfast a Chaerefrog, gan gyflogi dros 2000 o staff (mae 1200 o'r rhain yn gweithio yn y Gwasanaeth Hylendid Cig, ein hasiantaeth weithredol). Mae gennym gyllideb flynyddol o £162 miliwn (ar gyfer 2008/09).

3. Rydym yn atebol i Senedd San Steffan drwy'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd ac i Lywodraeth Yr Alban, Llywodraeth Cynulliad Cymru a gweinyddiaeth Gogledd Iwerddon drwy eu gweinidogion iechyd neu gydradd. Mae diogelwch a safonau bwyd yn faterion a ddatganolwyd ac mae pob un o'n swyddfeydd yn y gwledydd datganoledig yn cael eu harwain gan Gyfarwyddwr sy'n uniongyrchol atebol i'n Prif Weithredwr. Ceir pwyllgorau cynghori ar fwyd ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd.

4. Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn datgelu ein cynigion ar gyfer cyfeiriad strategol yr Asiantaeth hyd at 2015. Bydd hyn yn arwain at gyfres o flaenoriaethau ar gyfer gweithredu sydd nid yn unig yn adlewyrchu'r amgylchedd newidiol ond hefyd y cynnydd yr ydym wedi ei wneud mewn meysydd allweddol o waith hyd yn hyn a lle y credwn y gallwn gael gwir effaith ar iechyd y cyhoedd yn y DU.

5. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid i ddatblygu'r canlyniadau gorau posib i bawb yn y DU. Rydym am weld ein strategaeth yn cael ei datblygu a'i rhannu gyda'r partneriaid a rhanddeiliaid hynny sydd â swyddogaeth a diddordeb mewn cyflawni diogelwch bwyd a chanlyniadau eraill iechyd y cyhoedd. Dim ond drwy bartneriaeth gweithio dda ac ymgysylltu â rhanddeiliaid y gallwn fodloni ein nod o amddiffyn defnyddwyr y DU rhag bwyd anniogel, a pharhau i chwarae rhan arweiniol mewn gwella iechyd y genedl drwy annog defnyddwyr i wneud dewisiadau cytbwys am fwyta'n iach.

6. Mae gwerthoedd craidd yr Asiantaeth yn allweddol i'n llwyddiant a bydd y rhain yn parhau yn ein strategaeth newydd. Ein gwerthoedd craidd yw:

   - rhoi'r defnyddiwr yn gyntaf
   - bod yn agored
   - bod yn annibynnol
   - seilio ein gwaith ar wyddoniaeth a thystiolaeth

7. Rydym wedi cychwyn ar raglen sylweddol o newid o'r enw 'Un Asiantaeth' sy'n mynd ati i geisio sicrhau bod gan yr ASB a'r Gwasanaeth Hylendid Cig yr adnoddau i wynebu heriau'r dyfodol. Mae ein strategaeth newydd yn rhaglen bwysig o waith o fewn Un Asiantaeth, ynghyd â rhaglenni'n cefnogi gwell cyflenwi, diwylliant a strwythur. Wrth ddatblygu ein cynigion ar gyfer 2010 i 2015 rydym yn bod yn realistig

---

[1] Am ragor o fanylion am sut yr ydym yn gweithredu, gweler ein hadroddiad blynyddol yn www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/publication/annualreport0708.pdf

am ein hadnoddau, ac rydym yn defnyddio dull seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi blaenoriaethu ein gweithgareddau, yn ogystal â gwneud arbedion effeithiolrwydd yn y ffordd yr ydym yn gweithio. Bydd ein Cynllun Strategol terfynol yn nodi'r adnoddau y bydd eu hangen i gyflawni ein cynlluniau.

8. Yn ogystal â'r pecyn ymgynghori hwn, rydym yn cynllunio digwyddiadau adborth gyda rhanddeiliaid; byddwn hefyd yn parhau i gwrdd â rhanddeiliaid dros gyfnod yr ymgynghoriad a thu hwnt.

EIN CYNLLUN STRATEGOL CYFREDOL[2]

9. Mae Cynllun Strategol 2005-10 yn nodi ein targedau ar gyfer gwaith dan dri phrif faes, sef 'diogelwch bwyd', 'bwyta ar gyfer iechyd' a 'dewis'. Rydym hefyd yn disgrifio'r egwyddorion sy'n tanategu sut y byddwn yn gweithredu'r cynllun dan adran 'cyflawni effeithiol'.

10. Adolygwyd y cynllun gennym yn 2006 – rhoddodd hyn gyfle i ni i fesur ac adrodd ar gynnydd yn erbyn targedau strategol a sicrhau bod y cynllun yn ddogfen ddatblygol, ddeinamig a oedd yn addas i'w diben.

11. Ni wnaeth y 'Cynllun Strategol hyd at 2010' wedi ei diweddaru olygu newid cyfeiriad i'r Asiantaeth. Roedd y nodau allweddol a'r strategaethau cefnogi ar gyfer cyflawni yn dal yr un fath. Fodd bynnag, diddymwyd rhai targedau oedd wedi eu cyflawni eisoes a gwnaed y diwygiadau oedd eu hangen wrth i amgylchiadau newid. Roedd targedau allweddol yn ein Cynllun Strategol cyfredol yn ymwneud â lleihau cario clefydau mewn bwyd, lleihau cymeriant halen a braster dirlawn a datblygu cynlluniau cenedlaethol i wella gwybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr ar gynnwys maethol bwyd a hylendid bwyd mewn busnesau bwyd.

DATBLYGU EIN STRATEGAETH NEWYDD
dull seiliedig ar dystiolaeth

12. Mae'r ASB yn sefydliad seiliedig ar dystiolaeth ac rydym wedi parhau i ddangos y dull hwn wrth ddatblygu ein strategaeth newydd.

Sganio'r gorwel

13. Ym mis Mai 2008 darparodd dadansoddwyr yr ASB ddarn o waith ar sganio'r gorwel. Defnyddiwyd eu dadansoddiad tueddiad yn nhrafodaeth gyntaf uwch reolwyr ar ein strategaeth newydd ac fe'i hategwyd gan ddadansoddiad o sbardunau allweddol sy'n creu newid, a ddatblygwyd gyda fframwaith PESTLE (dadansoddiad Gwleidyddol, Economaidd, Diwyllianol-gymdeithasol, Technolegol, Cyfreithiol ac Amgylcheddol). Wrth ddefnyddio'r fframwaith PESTLE nodwyd rhai ffactorau allweddol a allai gael effaith ar fwyd a'r ASB dros y 5-10 mlynedd nesaf.

---

[2] Cewch ddarllen ein Cynllun Strategol cyfredol yn llawn yn www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/strategicplan2010e.pdf (Saesneg) a www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/strategicplanto2010welsh.pdf (Cymraeg)

Blaenoriaethu

14. Rydym wedi edrych ar holl weithgareddau cyfredol yr ASB yn ogystal â thrafod meysydd newydd posib o waith yn dilyn sganio'r gorwel. Rydym yn cynnig y dylai strategaeth yr ASB gael ei seilio ar lle y gallwn gael yr effaith fwyaf o ran gwella iechyd y cyhoedd. Er mwyn cefnogi penderfyniadau blaenoriaethu casglodd ein dadansoddwyr Ymchwil Gweithredol wybodaeth ynghyd ar yr effaith ar iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig â bwyta bwyd, megis risgiau halogi cemegol, radiolegol a microbiolegol a salwch cysylltiedig â diet. Ynghyd â'r risgiau, ystyriwyd hefyd faterion megis pryder y cyhoedd a chostau economaidd.

15. Dechreuwyd prosiect i ddatblygu dadansoddiad o ddiogelwch bwyd yr holl gadwyn fwyd yn 2008. Mae rhai canfyddiadau diddorol eisoes wedi eu nodi, ac rydym yn rhagweld y bydd y gwaith parhaus hwn yn cyfrannu'n sylweddol at gynllun strategol cadarn seiliedig ar dystiolaeth. Bydd Bwrdd yr ASB yn trafod y dadansoddiad yn eu cyfarfod Bwrdd agored ym mis Gorffennaf 2009.

16. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu dull ar gyfer salwch cysylltiedig â diet, gyda'r gobaith y bydd yn darparu cyfraniad tebyg i'r cynllun strategol.

Cyfraniad rhanddeiliaid

17. Er mwyn profi ein syniadau ar gam cynnar yn erbyn safbwyntiau ein rhanddeiliaid, trefnwyd nifer o weithgareddau ymgysylltu yn hydref 2008.

18. Trefnwyd grwpiau trafod anffurfiol gyda nifer fechan o randdeiliaid allanol allweddol lle holwyd barn am ein dadansoddiad PESTLE a'n syniadau blaenoriaethu. Galwyd pum grŵp at ei gilydd: Awdurdodau Lleol a Sefydliadau Rhanbarthol; Grwpiau Diwydiant Bwyd; Grwpiau Defnyddwyr ac Iechyd; grwpiau cymysg o randdeiliaid yng Nghymru a'r Alban. Yng Ngogledd Iwerddon cynhaliwyd ein cynhadledd rhanddeiliaid gyntaf erioed, lle trafodwyd pynciau allweddol o bryder ac edrychwyd ar sut y gallai'r Asiantaeth weithio'n fwy cydlynol gyda'n rhanddeiliaid.

19. Cynhaliwyd deg Fforwm Dinasyddion ar Fwyd ar draws y DU, a oedd yn archwilio safbwyntiau defnyddwyr ar sut yr oedd pobl yn ystyried y byddai eu bywyd a'u perthynas â bwyd yn 2010 i 2015 a sut y gallai'r ASB wneud ei gweledigaeth o 'Fwyd Diogel a Bwyta'n iach i Bawb' yn realiti.

20. Trafododd Pwyllgor Cynghori Cyffredinol yr ASB ar Wyddoniaeth (GACS) bapur ar faterion strategol yn deillio o sganio gorwel gwyddoniaeth yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2008.

21. Cynhaliwyd cyfarfodydd gydag Adrannau Iechyd ac Amaeth ar draws y DU i sicrhau bod ein strategaeth drafft yn cyd-fynd â chynlluniau traws-Lywodraeth.

Asesu Effaith

22. Mae gennym gyfrifoldeb statudol i ystyried costau a buddiannau wrth ystyried a ddylem arfer unrhyw un o'n pwerau a sut i wneud hynny. Rydym yn asesu dulliau posib nid yn unig o ran gwelliannau i iechyd y cyhoedd, amddiffyn defnyddwyr a hyder defnyddwyr, ond hefyd o ran yr effaith ar ddiwydiant a rhanddeiliaid eraill. Rydym yn dilyn egwyddorion y Llywodraeth o reoleiddio da wrth ddatblygu polisïau ac yn defnyddio Asesiadau Effaith i amcangyfrif effeithiau posib y mesurau arfaethedig.

23. Mae'n anodd asesu effaith cyffredinol strategaeth neu raglen o waith, ond rydym wedi cynnwys gwybodaeth lle yr oedd posib gwneud hynny yn yr Asesiad o Effaith

drafft sy'n mynd gyda'r ymgynghoriad hwn. Asesir effaith unrhyw newidiadau polisi sy'n deillio o'r strategaeth newydd yn llawn yn unol â'n harfer arferol. Rydym yn cyhoeddi ein holl Asesiadau Effaith ar wefan yr ASB.

EIN DIBEN, AMCANION, CANLYNIADAU A BLAENORIAETHAU

24. Yn ein strategaeth newydd rydym yn disgrifio'r prif feysydd gwaith y bydd pwyslais cynyddol neu barhaus arnynt yn yr Asiantaeth dros y cyfnod 2010 i 2015.

Ffigur 1: Pensaernïaeth y Cynllun Strategol



Ein Diben

25. Sefydlwyd ni gan y Ddeddf Safonau Bwyd 1999 i:

Amddiffyn iechyd y cyhoedd rhag peryglon a allai godi mewn cysylltiad â bwyta bwyd, a hefyd amddiffyn buddianau defnyddwyr mewn cysylltiad â bwyd

26. Mabwysiadwyd y diben 'Bwyd Diogel a Bwyta'n iach i Bawb' gennym yn 2007. Mae ein strategaeth newydd wedi ei chynllunio o amgylch hyn gan ei bod yn crynhoi ein hawydd i ganolbwyntio ein hymdrechion lle y gallwn gael yr effaith fwyaf ar wella iechyd y cyhoedd.

Ein Hamcanion a'n Canlyniadau

27. I gefnogi'r diben hwn rydym wedi cynllunio nifer o amcanion a chanlyniadau strategol, a ddangosir yn Ffigur 2. Ein dau amcan strategol yw 'gwella diogelwch bwyd' a 'gwella cydbwysedd diet'. Yn cefnogi'r rhain mae 7 cynnig clir sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i ddisgrifio sut y dylem ni a'n rhanddeiliaid fesur llwyddiant yn erbyn y ddau nod cyffredinol hyn.
28. Rydym wedi datblygu canlyniadau diogelwch bwyd ac iechyd dietegol ar gyfer y gadwyn cyflenwi bwyd ac ar gyfer y defnyddiwr. Ceir hefyd ganlyniad sy'n cwmpasu'r amcanion diogelwch bwyd ac iechyd dietegol ac sy'n mynegi ein diben rheoliadol o ran bwyd.
29. Bydd faint o adnoddau sydd ar gyfer pob canlyniad yn dangos lle mae angen i ni ganolbwyntio'n hymdrechion i gael yr effaith fwyaf ar wella iechyd y cyhoedd

Ein Blaenoriaethau

30. Rydym wedi datblygu rhai blaenoriaethau arfaethedig o fewn pob canlyniad, y credwn y dylem ganolbwyntio arnynt yn ystod y cyfnod 2010 i 2015 ac a ddangosir hefyd yn Ffigur 2. Rydym wedi cynnwys gwybodaeth fwy manwl am y rhesymau pam ein bod wedi dewis y blaenoriaethau arbennig hyn yn ein Hasesiad o Effaith drafft (gweler Atodiad B). Rydym wedi cynnwys gwybodaeth dadansoddiad risg ar gyfer y blaenoriaethau diogelwch bwyd, ac ar gyfer blaenoriaethau iechyd dietegol rydym wedi dangos ym mhle y credwn y dylid canolbwyntio'n blaenoriaethau i gyflenwi strategaethau Llywodraeth y DU.

Mesurau a Thargedau

31. Byddwn yn datblygu mesurau a thargedau ar ôl i ni gytuno ar gyfeiriad ein llwybr, y canlyniadau yr hoffem eu gweld a'n blaenoriaethau. Ar ôl i ni ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a chytuno ar y strategaeth, byddwn yn gallu nodi'r hyn y byddwn yn gallu ei wneud mewn cyfnod 5 mlynedd gyda'n dyraniad adnoddau tebygol, a gosod targedau realistig ond ymestynnol.

Diben: **Bwyd Diogel a Bwyta'n Iach i Bawb**						
Amcan: **Gwella diogelwch bwyd**			Amcan: **Gwella cydbwysedd y diet**			
Mae bwyd sy'n cael ei fewnforio sy'n dod i mewn i farchnad y DU yn ddiogel i'w fwyta	Mae bwyd a gynhyrchir neu a werthir yn y DU yn ddiogel i'w fwyta	Mae defnyddwyr yn gwneud dewisiadau cytbwys am ddiogelwch bwyd pan fyddant yn bwyta y tu allan i'r cartref, ac wrth baratoi a choginio bwyd yn ddiogel yn y cartref	Trefn reoleiddio gymesur, sy'n seiliedig ar risg ynghylch bwyd, sy'n eglur ynglŷn â chyfrifoldebau busnesau bwyd ac eraill, ac sy'n magu hyder y cyhoedd mewn bwyd	Mae cynnyrch manwerthu a phrydau arlwyo yn iachach	Mae manwerthwyr, cynhyrchwyr ac arlwywyr yn darparu gwybodaeth am faeth sydd ei hangen ar ddefnyddwyr i wneud dewisiadau iach	Mae defnyddwyr yn wybodus am fwyd a deiet iach ac yn paratoi a choginio prydau iachus yn y cartref
• Cynyddu sganio'r gorwel, a gwybodaeth fforensig a dealltwriaeth o'r gadwyn fwyd fyd-eang • Defnyddio gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o'r risgiau o ran bwyd wedi'i fewnforio wrth reoli porthladdoedd • Monitro mewnforion mewn	• Gostyngiad parhaus mewn afiechyd sy'n cael ei gario gan fwyd: blaenoriaethu mynd i'r afael â campylobacter a salmonela mewn dofednod • Datblygu ein gwybodaeth o ba ymyrraethau sy'n gweithio; a defnyddio dull seiliedig ar risg i gynyddu cydymffurfiad • Cyflenwi dulliau rheoli cig mwy seiliedig ar risg, a chymesur • Mynd i'r afael â halogiad yn y cyflenwad a'r gallu i olrhain • Gwell sganio a gwybodaeth am ddefnyddio technegau newydd mewn cynhyrchu bwyd	• Gostyngiad parhaus mewn afiechyd sy'n cael ei gludo mewn bwyd • Datblygu ein gwybodaeth o ba ymyrraethau sy'n gweithio wrth godi safonau mewn allfeydd gwasanaeth bwyd • Gweithredu cynllun 'Sgorau ar y Drysau' sengl	• Cyflenwi trefn arolygu a gorfodi effeithiol seiliedig ar risg • Rheoleiddio gwell, mwy cymesur • Presenoldeb UE cryfach ar gyfer trafod a chydweithio	• Gostyngiadau parhaus mewn braster dirlawn • Mwy o ddewisiadau iach ar gael mewn gwasanaethau bwyd a manwerthu • Cynyddu cyflymder newid mewn lleoliadau bwyta allan • Deall arferion dietegol a statws maeth poblogaeth y DU; modelu effaith newidiadau i arferion defnyddwyr a chynnyrch	• Dull sengl, syml ac effeithiol o labelu blaen pecyn yn cael ei fabwysiadu gan y'r holl ddiwydiant bwyd • Cynyddu'r ddarpariaeth o wybodaeth am faeth mewn amrywiaeth eang o fannau arlwyo	• Pob busnes bwyd i gyflenwi cyfres sengl o negeuseon bwyta'n iach allweddol • Mwy o fwyta bwydydd iach yn enwedig ffrwythau a llysiau • Hybu'r ASB fel ffynhonell ddibynadwy o wybodaeth • Datblygu cyngor integredig gan y Llywodraeth i ddefnyddwyr ar faterion bwyd • Ysgogi galw am gynnyrch sy'n cynnwys llai o halen a braster dirlawn

Blaenoriaethau ar draws diogelwch bwyd ac i wella cydbwysedd y diet:

- Dadnsoddiad o risgiau diogelwch bwyd yn y gadwyn fwyd gyfan; dadansoddiad o risgiau maetholion a chyfleoedd i gefnogi strategaethau bwyta'n iach
- Ymchwil a gwyliadwriaeth seiliedig ar risg wedi'u targedu
- Deall lle y gallwn gael y dylanwad a'r effaith fwyaf; yna penderfynu ar a gweithredu polisi i bartneriaethau ar draws y gadwyn fwyd
- Cynyddu dealltwriaeth o sut i newid ymddygiad defnyddwyr

Cyd-destun y DU

32. Dylid edrych ar y strategaeth hon yng nghyd-destun gweithgaredd ehangach y llywodraeth ar draws y DU ar bolisi bwyd a thargedau iechyd. Yn San Steffan yn ddiweddar, cyhoeddodd y llywodraeth fframwaith strategol newydd y dyfodol 'Food Matters: Towards a Strategy for the 21st Century'. Yn yr Alban, mae polisi bwyd wedi ei ddwyn ynghyd dan y teitl 'The future: A food and drink policy for Scotland'. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori'n fuan ar ei flaenoriaethau polisi bwyd yn 'Ansawdd Bwyd' i Gymru; ac yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Strategaeth Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd (DHSSPS) 'Fit Futures, Focus on Food, Activity and Young People' yn amlinellu'r ymroddiad i wella maeth pobl sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon.

33. Mae'r Asiantaeth yn chwarae rhan arweiniol ar ran llywodraeth y DU ym maes diogelwch bwyd. Rydym yn rhannu ein cylch gorchwyl ar gyfer gwella iechyd dietegol y genedl gydag adrannau iechyd a byddwn yn gweithio'n agos gyda'r pedair Llywodraeth i gyflawni ein rhan mewn dull llywodraeth eang. Pan fo ein cylch gorchwyl a'n cyfrifoldebau yn ymwneud ag agweddau eraill ar bolisi bwyd (megis cynaliadwyedd, caffael, mynediad, diogelwch bwyd a thwf economaidd) byddwn yn cadw cysylltiadau agos i sicrhau dull cydlynol o gyflenwi polisi cyhoeddus ar fwyd (gweler cynaliadwyedd isod fel enghraifft o hyn).

34. Fel rheoleiddiwr mae'r ASB yn gweithio o fewn amgylchedd rheoliadol y DU, gan weithredu egwyddorion gwell rheoleiddio i leihau pwysau gweinyddol diangen ar fusnesau.

35. Wrth gyflenwi a gweithredu'r strategaeth hon bydd yr ASB yn gweithio'n agos gyda Llywodraethau'r DU i sicrhau bod ein gwaith yn ategu ac yn ychwanegu gwerth at fentrau ehangach yn ymwneud â bwyd, bwyta'n iach, cynaliadwyedd a gwell rheoleiddio..

Cyd-destun yr UE a'r cyd-destun rhyngwladol

36. Mae dros 90% o ddeddfwriaeth y DU ynghylch bwyd yn tarddu o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Comisiwn Codex Alimentarius hefyd yn gosod safonau diogelwch a safonau eraill ar gyfer bwyd a ddefnyddir ar draws y byd i sicrhau masnach deg.

37. O ganlyniad, mae ein gallu i ddylanwadu o fewn yr UE ac yn rhyngwladol yn flaenoriaeth ar gyfer gwella gan ein bod wedi cynnig rhai blaenoriaethau heriol a fydd angen newidiadau i ddeddfwriaeth yr UE os ydynt am gael eu cyflawni. Er mwyn cryfhau presenoldeb y DU yn yr UE o ran bwyd, bydd gennym rywun o'r Asiantaeth yn gweithio o fewn Cynrychiolaeth Barhaol y DU ym Mrwsel o fis Medi 2009 ymlaen.

Cynaliadwyedd

38. Mae'r llywodraeth yn ymroddedig i integreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy i'w holl weithgareddau a pholisïau, ac rydym yn ymroddedig i ystyried datblygu cynaliadwy yn ein holl weithgareddau a phenderfyniadau polisi. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu rhedeg ein busnes mewn modd cynaliadwy a datblygu ein cylch gorchwyl mewn ffordd gynaliadwy.

39. Yr her fwyaf a wynebwn yw ymsefydlu ystyriaethau cynaliadwyedd yn llawn mewn llunio polisïau. Mabwysiadwyd dull newydd gennym yn 2008, sy'n ymrwymo'r Asiantaeth i bolisïau cynaliadwy. Agweddau allweddol ar y dull newydd yw:

    - Wrth benderfynu ar ba ddewis polisi i'w gymryd byddwn yn ystyried yr ystod lawn o effeithiau posib – amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

    - Wrth benderfynu rhwng dewisiadau polisi pan fo effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol, byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar effeithiau cymdeithasol a diogelwch bwyd a maeth, gan weithio hefyd i leihau cymaint â phosib ar effeithiau negyddol ym mhob maes o gynaliadwyedd.

- Byddwn yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am unrhyw effeithiau negyddol sydd yn parhau i fod yn ein polisi.

40. Yn tanategu hyn cydnabyddir bod angen i ni weithio gydag adrannau eraill y llywodraeth a sefydliadau eraill i gyflenwi polisïau cynaliadwy. Gallwch ddysgu am ein cynlluniau ar ein gwefan (gweler www.food.gov.uk/aboutus/how_we_work/ sustainability).

ANGHENION GWYDDONIAETH, TYSTIOLAETH A DADANSODDI

41. Rydym yn datblygu ein Strategaeth Gwyddoniaeth a Thystiolaeth newydd ochr yn ochr â phroses strategaeth yr ASB.

42. Bydd Strategaeth Gwyddoniaeth a Thystiolaeth 2010-15 yn nodi'r wyddoniaeth, y dystiolaeth a'r dadansoddiad[3] y bydd eu hangen arnom i danategu a chefnogi cyflawni ein strategaeth, a rhoi sail i ddatblygu ein strategaeth i'r dyfodol y tu hwnt i hyn. Bydd hefyd yn disgrifio sut y byddwn yn cael ac yn defnyddio'r wyddoniaeth a'r dystiolaeth y mae eu hangen arnom. Bydd yn disodli Strategaeth Wyddoniaeth yr Asiantaeth 2005-2010[4] ac yn ymgorffori ein strategaeth ar gyfer datblygu gwyddorau cymdeithasol.[5]

43. Bydd angen i Strategaeth Gwyddoniaeth a Thystiolaeth 2010-15 roi sylw i'r prif gwestiynau hyn:

    - Beth yw'r prif fylchau yn y wyddoniaeth, tystiolaeth a dadansoddiad y mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn cyflawni ein hamcanion?
    - Pa fath o gasglu gwyddoniaeth a thystiolaeth y dylem ni ei gynnal, neu annog eraill i'w gynnal, i fynd i'r afael â'r bylchau hyn?
    - Gyda phwy ddylem ni fod yn gweithio i fynd i'r afael â'r bylchau hyn a defnyddio'r wyddoniaeth, y dystiolaeth a'r dadansoddiad yn effeithiol?

44. Wrth roi sylw i'r materion hyn, bydd angen i ni ystyried yr amserlenni ar gyfer y camau y mae angen i ni eu cymryd. Mewn geiriau eraill, pa wyddoniaeth, tystiolaeth a dadansoddiad y bydd eu hangen arnom i gefnogi cyflenwi'r strategaeth arfaethedig hyd at 2015, a beth fydd ei angen arnom i'n helpu i ddatblygu ein strategaeth i'r dyfodol y tu hwnt i hyn?

45. Ceisir safbwyntiau ar y cwestiynau hyn yn yr ymgynghoriad hwn (C3, isod). Bydd eich cyfraniad yn rhoi sail i ddadansoddiad manwl a blaenoriaethu ein hanghenion, gweithgareddau ac amcanion gwyddoniaeth a thystiolaeth. Hyn fydd yn ffurfio craidd Strategaeth Gwyddoniaeth a Thystiolaeth 2010 - 2015. Byddwn yn gwahodd sylwadau ar ganlyniad y broses hon yn ddiweddarach yn 2009 (noder y gall hyn fod am gyfnod byrrach na'r 12 wythnos a ganiateir fel arfer ar gyfer ymgynghoriadau ffurfiol). Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid gwyddoniaeth drwy gydol datblygu'r Strategaeth Gwyddoniaeth a Thystiolaeth, gan gynnwys y Pwyllgor Cynghori Cyffredinol a'r Pwyllgor Ymchwil Gwyddoniaeth a Gwyddorau Cymdeithasol.

46. Wrth ddatblygu'r Strategaeth Gwyddoniaeth a Thystiolaeth, byddwn yn ystyried cyfraniadau i ymchwil a gweithdai ar feysydd ymchwil penodol yr Asiantaeth, gan gynnwys yr Adolygiad Ymchwil Maeth a'r ymgynghoriad cysylltiedig. Os ydych chi wedi gwneud cyfraniadau

---

[3] Dywed yr Asiantaeth bod ei hanghenion gwyddoniaeth a thystiolaeth yn cwmpasu pob disgyblaeth berthnasol, gan gynnwys y gwyddorau naturiol, ffisegol a chymdeithasol a disgyblaethau dadansoddol eraill

[4] Gallwch ddarllen ein Strategaeth Wyddoniaeth 2005-2010 gyfredol yn: http://www.food.gov.uk/science/researchpolicy/scistrat

[5] Gweler http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/committee/ssrcstrat.pdf

penodol i'r rhain, nid yw'n angenrheidiol i chi eu hailadrodd mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Y BROSES YMGYNGHORI

47. Rydym wedi nodi cyfeiriad arfaethedig ein llwybr ar gyfer 2010-2015 a hoffem glywed eich safbwyntiau ar hyn. Byddem yn croesawu sylwadau yn benodol mewn ymateb i'r cwestiynau canlynol.

Cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn:

C1. Rydym yn bwriadu canolbwyntio ein hymdrechion lle y gallwn gael yr effaith fwyaf ar iechyd y cyhoedd. Ydych chi'n cytuno mai dyma ddylai fod ein dull strategol cyffredinol (ein diben, ein hamcanion a'n canlyniadau)? Os nad ydych, esboniwch eich rhesymu yn fyr.

C2. Rydym wedi disgrifio'r blaenoriaethau y credwn y bydd angen i ni ganolbwyntio arnynt yn y cyfnod 2010 – 2015 er mwyn cael yr effaith fwyaf. Ydych chi'n cytuno mai'r rhain yw'r blaenoriaethau cywir? Byddai o fudd pe gallech ddangos yn glir at ba flaenoriaethau y mae eich sylwadau yn cyfeirio atynt ac esbonio eich rhesymu yn fyr.

C3. Rydym wedi nodi rhai cwestiynau allweddol y mae angen i ni roi sylw iddynt i sicrhau bod gennym y wyddoniaeth, y dystiolaeth a'r dadansoddiad sydd eu hangen arnom i gefnogi cyflawni strategaeth arfaethedig yr ASB (paragraff 41-46). Gadewch i ni gael eich safbwyntiau ar yr atebion i'r cwestiynau hyn. A ydym wedi anghofio unrhyw fater allweddol?

48. Yn ystod y cyfnod ymgynghori byddwn hefyd yn cynnal cyfres o weithgareddau adborth er mwyn i ni glywed barn ystod o'n rhanddeiliaid ac er mwyn trafod ein cynigion yn fanylach.
49. Unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi cau, caiff safbwyntiau rhanddeiliaid eu crynhoi a'u hystyried gan yr ASB. Cyhoeddir crynodeb ymateb i'r ymgynghoriad o fewn 3 mis i'r dyddiad cau yn dangos pa newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r ymatebion.
50. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn dechrau amlinellu'r hyn y byddwn yn gallu ei gyflawni gyda'n hadnoddau, a fydd yn arwain at osod targedau. Datblygir cynigion terfynol i'w trafod a chytuno arnynt yn y cyfarfod Bwrdd agored ym mis Chwefror 2010.
51. Bydd gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a'n partneriaid cyflenwi yn parhau drwy 2009 ac rydym yn bwriadu cyhoeddi'r Cynllun Strategol newydd ym mis Ebrill 2010, gyda Strategaeth Gwyddoniaeth a Thystiolaeth ymochrol.
52. Anfonwch sylwadau i'r swyddog cyswllt ar dudalen 2. Ni allwn lwyddo heb gymorth nifer o bobl eraill. Gadewch i ni wybod beth ydych chi'n ei feddwl o'n strategaeth arfaethedig.

Dogfennau perthnasol eraill

53. Mae dogfennau strategaeth cyfredol a blaenorol yr ASB ar gael yn www.food.gov.uk/aboutus/publications/busreps/strategicplan/

Ymatebion

54. **Mae angen ymatebion erbyn diwedd dydd Gwener 5 Mehefin 2009**. Dywedwch yn eich ymateb pa un a ydych chi'n ymateb fel unigolyn preifat neu ar ran sefydliad/cwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli).

Diolch i chi ar ran yr Asiantaeth Safonau Bwyd am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

Deirdre Hutton
Cadeirydd

Tim J Smith
Prif Weithredwr

Amgaeedig

Atodiad A: Gwybodaeth Safonol yr Ymgynghoriad

Atodiad B: Sail Tystiolaeth ar gyfer y blaenoriaethau arfaethedig

Atodiad C: Asesiad o Effaith

Atodiad D: Rhestr o bobl sydd â diddordeb

Cwestiynau

55. Os oes gennych unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r ymgynghoriad hwn, cysylltwch â'r unigolyn a enwir ar dudalen2, a fydd yn gallu ateb eich cwestiynau.

Cyhoeddi data personol a chyfrinachedd ymatebion

56. Yn unol ag egwyddor yr ASB o fod yn agored, bydd copi o'r ymgynghoriad wedi'i gwblhau ar gael yn ein Canolfan Wybodaeth yn Aviation House. Bydd yr ymatebion ar gael i'r cyhoedd ar gais. Bydd yr ASB hefyd yn cyhoeddi crynodeb o ymatebion, a allai gynnwys data personol fel eich enw llawn a manylion cyfeiriad cyswllt. Os nad ydych am i'r wybodaeth hon gael ei rhyddhau, cwblhewch a dychwelwch y ffurflen Cyhoeddi Data Personol, sydd ar gael ar y wefan yn **http://www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/dataprotection.pdf** . Nid yw dychwelyd y ffurflen hon yn golygu y byddwn yn trin eich ymateb i'r ymgynghoriad yn gyfrinachol, dim ond eich data personol.

57. Yn unol â darpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000/Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, gallai'r holl wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn eich ymateb gael ei chyhoeddi neu ei datgelu. Os ydych o'r farn na ddylid datgelu rhan o'r wybodaeth yn eich ymateb, dylech nodi'r wybodaeth dan sylw, gwneud cais iddi beidio â chael ei datgelu ac esbonio pa niwed y credwch y gallai ei datgelu arwain ato. Yr ASB sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol am ba un a ddylid datgelu’r wybodaeth ai peidio. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried eich sylwadau wrth wneud y penderfyniad hwn.

58. Ni fydd unrhyw ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried fel cais o'r fath oni bai eich bod yn cynnwys cais, ynghyd ag esboniad, ym mhrif destun eich ymateb.

Rhagor o wybodaeth

59. Mae rhestr o'r rhai sydd â diddordeb y mae'r llythyr hwn yn cael ei anfon atynt ar gael yn Atodiad C. Mae croeso i chi rannu'r ddogfen hon gydag unrhyw rai eraill sydd â diddordeb, neu anfon eu manylion cyswllt llawn i ni er mwyn i ni drefnu i gopi gael ei anfon atynt yn uniongyrchol.

60. Mae fersiwn Gymraeg o'r pecyn ymgynghori ar gael yn www.food.gov.uk/consultations

61. Cysylltwch â ni os byddwch angen y dogfennau ymgynghori mewn fformat arall – sain, print bras, Braille - neu ieithoedd eraill.

62. Rhowch wybod i ni os byddwch angen copïau papur o'r dogfennau ymgynghori neu o unrhyw beth a nodir dan ‘**Dogfennau perthnasol eraill**’.

63. Paratowyd yr ymgynghoriad hwn yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth EM ar Ymgynghori, sydd ar gael yn: **http://www.berr.gov.uk/files/file47158.pdf** Mae Meini Prawf yr Ymgynghoriad ar gael yn **http://www.berr.gov.uk/whatwedo/bre/consultation-guidance/page44458.html**

64. Mae'r Cod Ymarfer yn nodi y dylid cyhoeddi Asesiad Effaith ynghyd ag ymgynghoriad ffurfiol fel rheol. Gweler yr Asesiad Effaith yn Atodiad B.

65. Am fwy o fanylion am y broses ymgynghori (nid am gynnwys yr ymgynghoriad hwn) cysylltwch â: Cydgysylltydd Ymgynghoriadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd, Ystafell 2C, Aviation House, 125 Kingsway, Llundain, WC2B 6NH. Ffôn: 0207 276 8630.

Sylwadau ar y broses ymgynghori ei hun

66. Mae gennym ddiddordeb mewn clywed eich barn ar yr ymgynghoriad hwn a byddem felly'n croesawu eich adborth cyffredinol ar y pecyn ymgynghori a'r broses ymgynghori gyffredinol. Os hoffech ein cynorthwyo i wella ansawdd ymgynghoriadau yn y dyfodol, mae croeso i chi rannu eich sylwadau gyda ni trwy ddefnyddio'r Holiadur Adborth ar yr Ymgynghoriad yn **<http://www.food.gov.uk/multimedia/worddocs/consultfeedback.doc>**

67. Os hoffech gael eich cynnwys yn ymgynghoriadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar bynciau eraill yn y dyfodol, hysbyswch ni am y meysydd pwnc hynny y gallai fod gennych ddiddordeb penodol ynddynt trwy ddefnyddio'r Holiadur Adborth ar yr Ymgynghoriad yn **http://www.food.gov.uk/multimedia/worddocs/consultfeedback.doc** Gellir defnyddio'r holiadur hefyd i'n diweddaru am eich manylion cyswllt cyfredol.

Cychwynnwyd prosiect i ddatblygu dadansoddiad diogelwch bwyd o'r gadwyn fwyd gyfan yn 2008. Nodwyd rhai canfyddiadau diddorol eisoes, ac rydym yn rhagweld y bydd y gwaith parhaus hwn yn cyfrannu'n sylweddol at gynllun strategol cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Tabl 1: Amcangyfrifon o brif beryglon iechyd y cyhoedd

	Marwolaethau y flwyddyn	**Nifer yr Achosion y flwyddyn**	**Nifer y digwyddiadau y flwyddyn (2007)**	**Olrheiniwr Defnyddwyr yr ASB - % yn berthnasol ym mis Rhagfyr 2008**
Afiechyd sy'n cael ei Gario mewn Bwyd (FBD)	450[1]	950,000[1]	270	53%
Alergenau/ anoddefiad	~5-10	4,800[2]	90	22%
Halogiad cemegol	Nid yw'n hysbys	Nid yw'n hysbys	660	32%[3]
TSEs-vCJD	5[4]	0 achos newydd[4]	10	24%
Halogiad radiolegol	Llai na 10[5]	Llai na 35[5]	40	15%[6]

[1] Cymru a Lloegr ar gyfer 2006, yr Asiantaeth Diogelu Iechyd
[2] Amcangyfrifiad o'r achosion newydd o alergedd i gnau daear ar gyfer 2005 a gymerwyd o '*Primary care epidemiology of allergic disorders*' a gymhwyswyd i boblogaeth y DU (http://www.gresearch.org/Public_Documents/HSCIC%20allergies%20report%20from%20QRESEARCH%20.pdf)
[3] Mae'r ffigur ar gyfer pryder defnyddwyr am blaladdwyr, fel procsi
[4] Cymerwyd ffigurau 2007 o '*Incidence of variant Creutzfeldt-Jakob disease diagnoses and deaths in the UK January 1994 – December 2007*' (http://www.cjd.ed.ac.uk/cjdq56.pdf)
[5] Amcangyfrifon yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer poblogaeth y DU yn seiliedig ar ddata ynglŷn â dod i gysylltiad â gollyngiadau radiolegol i'r amgylchedd
[6] Ffigur Mehefin 2006 ar gyfer pryder defnyddwyr am fwyd arbelydredig, a ddefnyddir fel procsi. Nid yw bwyd arbelydredig yn cael ei olrhain bellach yn yr arolwg defnyddwyr.

Tueddiadau, rhagolygon ac ansicrwydd

- Mae cyfran y bwyd sy'n cael ei fwyta yn y DU sy'n dod o fewnforion wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diweddar ac mae bellach wedi cyrraedd ychydig dros 50% o fwyd sy'n cael ei fwyta. Nodir globaleiddiad y gadwyn gyflenwi fel rheswm allweddol pam mae niferoedd cynyddol o fwyd a chynhwysion bwyd yn cael eu mewnforio.
- Mae achosion BSE mewn gwartheg a vCJD mewn pobl wedi gostwng i lefelau isel iawn ac ni adroddwyd unrhyw achosion newydd o vCJD yn 2007.
- Mae achosion cyffredinol o afiechyd sy'n cael ei gario mewn bwyd hefyd wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diweddar, o 1.3 miliwn i 765,000 rhwng 2000 a 2005. Fodd bynnag, yn 2006, roedd arwyddion y gallai fod niferoedd yn cynyddu eto ac amcangyfrifwyd mai 950,000 oedd cyfanswm yr achosion.
- Bu tueddiad o gynnydd sylweddol mewn achosion Listeria, a gynyddodd o achosi 68 o farwolaethau yn 2000 i 131 yn 2006.
- Yn fwy hirdymor, gallai'r newid yn yr hinsawdd effeithio ar nifer yr achosion o afiechydon sy'n cael eu cario mewn bwyd. Mae dadansoddiad yr Adran Iechyd yn dynodi y byddai codiad o 1°C yn cynyddu pob FBD o ~5%; a Salmonela yn y DU o ~12%. Bydd poblogaeth sy'n heneiddio'n fwy agored i salwch sy'n cael ei gario mewn bwyd.

- Mae peryglon cemegol hysbys yn cael eu rheoli'n dda; y brif elfen nad yw'n hysbys yma yw'r effaith coctel, ac mae gwaith wedi cychwyn ar hyn.
- Daw un ansicrwydd allweddol o filheintiau newydd neu sy'n ailymddangos.
- Mae datblygiadau pellach ym meysydd gwyddoniaeth a thechnoleg yn debygol o effeithio ar gynhyrchu bwyd. Y prif yrwyr cyfle fydd cnydau mwy ac effeithlonrwydd cynhyrchu cynyddol, a fydd yn gwneud bwyd yn iachach ac yn fwy amgylcheddol gynaliadwy. Gallai technolegau newydd arwain at beryglon iechyd newydd i'r cyhoedd.

Mae'r adran ganlynol yn nodi canfyddiadau rhagarweiniol ein dadansoddiad risg ac yn disgrifio'n fwy manwl y blaenoriaethau strategol arfaethedig (gweler Ffigur 2 yr ymgynghoriad ar y strategaeth).

CANLYNIAD FS1: Mae bwyd sy'n cael ei fewnforio sy'n dod i mewn i farchnad y DU yn ddiogel i'w fwyta
Dadansoddiad risg
Natur a graddfa'r perygl i iechyd y cyhoedd • Mae cynhwysion bwyd sy'n cael eu mewnforio yn parhau i fod yn brif ffynhonnell ddigwyddiadau, ac mae olrheinadwyedd gwael yn ffactor sylfaenol allweddol, ac yn benodol, mewnforio a dosbarthu cynhyrchion cost isel, trosiant uchel. • Ystyrir bwydydd sy'n cael eu mewnforio o'r tu allan i'r UE fel maes sy'n peri risg sylweddol (er bod nifer y rhybuddion bwyd yn gymharol isel o gymharu â chyfanswm y mewnforion). • Nid oes unrhyw amcangyfrifon ar gyfer peryglon i iechyd y cyhoedd o gemegau ar gael, ond mae tua 50% o ddigwyddiadau'n gysylltiedig â halogiad cemegol ac 20% o bob digwyddiad yn gysylltiedig â chemegau mewn mewnforion. **Dadansoddiad o'r gadwyn fwyd: Mewnforion** • Mae'n ymddangos bod peryglon cemegol hysbys yn cael eu rheoli'n dda, ond mae angen i ni fonitro ar gyfer peryglon sy'n dod i'r amlwg, yn enwedig mewn bwydydd sy'n cael eu mewnforio • Prin yw'r wybodaeth am halogiad microbiolegol mewn bwyd a fewnforiwyd. Ceir lefelau cymharol uchel o halogiad mewn wyau nad ydynt o'r DU, er y dylai targedau'r UE ar gyfer lleihau halogiad leihau'r perygl hwn. **Casgliadau ar gyfer Cynllunio Strategol** • Angen ffurfio a chynnal partneriaethau darparu effeithiol ar draws y gadwyn fwyd • Angen arolygon wedi'u strwythuro o fwyd sy'n cael ei fewnforio, gan gynnwys ar gyfer halogiad microbiolegol • Mae cadwyn gyflenwi fyd-eang gymhleth sy'n ehangu yn gwneud olrheinadwyedd yn her allweddol.
Blaenoriaethau yn y Cynllun Strategol newydd
• Sganio'r gorwel a chasglu gwybodaeth trwy gydweithredu (yn yr UE ac yn fyd-eang) ar beryglon newydd a pheryglon sy'n ailymddangos a sut i ymateb i sicrhau bod yr effaith cyn lleied â phosibl. • Cynyddu ein gwybodaeth fforensig a'n cudd-wybodaeth o'r gadwyn fwyd fyd-eang. • Dadansoddiad parhaus o ddigwyddiadau (gan gynnwys digwyddiadau'r gorffennol) i ddarganfod gwreiddiau problemau a'r gwledydd sy'n peri'r perygl mwyaf, i wella ein dealltwriaeth o fynd i'r afael â'r peryglon allweddol ac ar gyfer rhaglenni samplu gwell/mwy datblygedig mewn porthladdoedd.

- Defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth well o beryglon bwyd sy'n cael ei fewnforio ar gyfer mesurau rheoli mewn porthladdoedd
- Monitro mewnforion mewn gwasanaethau manwerthu a bwyd

CANLYNIAD FS2: Mae bwyd a gynhyrchir neu a werthir yn y DU yn ddiogel i'w fwyta

Dadansoddiad risg

Natur a graddfa'r perygl i iechyd y cyhoedd

- Afiechydon sy'n cael eu Cario mewn Bwyd yw'r perygl diogelwch bwyd mwyaf hysbys o bell ffordd, o'i gymharu â pheryglon o TSEau mewn bwyd, halogiad cemegol a radiolegol, ac alergenau (gweler Tabl 1).
- Y 5 prif bathogen sy'n cael ei gario mewn bwyd sy'n cyfrannu at y perygl i iechyd y cyhoedd yw Campylobacter, Salmonela, ferocytotocsin-sy'n cynhyrchu E.coli (VTEC), Listeria, Clostridiwm perfringens. Campylobacter sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o achosion o afiechyd sy'n cael ei gario mewn bwyd; mae nifer y marwolaethau o Listeria'n gymharol uchel; mae Salmonela'n arwain at nifer gymharol uchel o farwolaethau ac mae nifer o achosion yn gysylltiedig ag ef. Mae nifer y marwolaethau a'r achosion yn is yng nghyswllt VTEC o'i gymharu â Salmonela a Campylobacter, ond mae difrifoldeb y salwch yn tueddu i fod yn uwch.
- Gallai nifer yr achosion o afiechydon sy'n cael eu cario mewn bwyd fod yn cynyddu ar ôl cyfnod o ddirywiad cyson; Mae BSE mewn gwartheg a vCJD mewn pobl wedi cyrraedd lefelau isel iawn bellach; ac mae lefelau halogwyr eraill yn y gadwyn gyflenwi'n cael eu rheoli'n dda'n gyffredinol ond mae angen i ni barhau i fod yn wyliadwrus (mae olrheinadwyedd yn allweddol yn y cyswllt hwn).

Dadansoddi'r gadwyn fwyd: o gynhyrchu cynradd i fanwerthu

- Daw'r perygl mwyaf o halogiad Campylobacter o gig dofednod ac mae peryglon yn codi ar draws y gadwyn fwyd sy'n caniatáu cyflwyno Campylobacter i fwyd.
- Mae data'n dangos mai dofednod ac wyau yw'r bwydydd mwyaf peryglus o ran halogiad Salmonela. Mae nifer yr achosion o Salmonela mewn moch yn y lladd-dy yn gymharol uchel, ond ystyrir bod y perygl cyffredinol i ddefnyddwyr yn isel gan fod achosion yn brin, ac mae'n debygol bod hyn oherwydd bod porc yn cael ei goginio'n drylwyr yn y DU fel arfer.
- Mae Listeria'n gysylltiedig â mathau penodol o fwydydd parod (cigoedd oer wedi'u coginio, caws meddal ac ati). Daw'r peryglon mwyaf o Listeria yn ystod camau diweddarach y gadwyn gyflenwi o brosesu i storio.
- Mae gan gyfran gymharol uchel o wartheg sy'n cyrraedd y lladd-dy gampylobacter a VTEC yn y perfedd. Ond, mae cyfran y cynhyrchion amrwd sy'n halogedig yn ystod y cam manwerthu yn isel, sy'n dangos bod rheolau'n lleihau'r risgiau posib i ryw raddau. Ar y llaw arall, ceir cyfran uchel iawn o ddognau cig eidion halogedig (cyn eu coginio) yn ystod y cam manwerthu oherwydd bod lefel y bwyd a fwyteir yn uchel. Mae hyn yn cynrychioli perygl o drawshalogi. Mae lefelau Campylobacter mewn cig eidion yn ystod y cam manwerthu'n llawer is nag mewn dofednod, ac felly dofednod sy'n cynrychioli'r perygl mwyaf.
- O ran BSE mewn gwartheg, mae nifer yr achosion yn gostwng i lefelau isel iawn oherwydd y gwaharddiad ar fwyd anifeiliaid. Mae mesurau rheoli gweithredwyr busnesau bwyd (FBO) sy'n parhau yn y lladd-dy wedyn yn lleihau'r perygl i ddefnyddwyr i lefel isel iawn.

Casgliadau ar gyfer Cynllunio Strategol

<u>Darparu diogelwch bwyd yn effeithiol trwy gydweithredu a phartneriaethau gydag eraill</u>

- Mae angen ffurfio a chynnal partneriaethau darparu effeithiol ar draws y gadwyn fwyd

<u>Afiechyd sy'n cael ei gario mewn bwyd</u>

- Dylai meysydd blaenoriaeth gynnwys Campylobacter a Salmonela mewn dofednod.

- Mae'r flaenoriaeth uchel a roddir i leihau Salmonela mewn moch ar hyn o bryd yn ymddangos yn anghymesur o'i gymharu â meysydd eraill â risg uwch

BSE a TSEau

- Gan fod heintiad BSE mewn gwartheg yn hynod isel ac yn gostwng ynghyd â lefelau uchel o fesurau rheoli FBO, dylem fodelu'r effaith o leihau mesurau rheoli llai hanfodol mewn lladd-dai.

Halogwyr eraill

- Mae peryglon cemegol a radiolegol hysbys wedi'u rheoli'n dda'n gyffredinol, ond mae angen i ni barhau i fod yn wyliadwrus o berygl halogion a gyflwynir yng nghadwyn gyflenwi'r DU. Yn enwedig o ystyried cymhlethdod cynyddol y gadwyn gyflenwi a heriau olrheinadwyedd parhaus (mae digwyddiadau diweddar wedi amlygu'r amrywiaeth eang o gynhyrchion y defnyddir rhai cynhwysion ynddynt).

Mesurau rheoli swyddogol

- Ar hyn o bryd, prin yw'r dystiolaeth sydd ar gael i asesu'n uniongyrchol effaith ymyriadau rheoleiddio ar draws y gadwyn cyflenwi bwyd, o ran cydymffurfiad na'r effaith ar iechyd y cyhoedd. Felly mae'n amhosibl ar hyn o bryd i wybod beth ddylai'r lefelau rheoli priodol fod yn y gadwyn fwyd i ddiogelu defnyddwyr yn effeithiol.
- Fodd bynnag, mae dadansoddiadau o ddwyster cymharol mesurau rheoli swyddogol ar draws y gadwyn fwyd ar gyfer y lefelau risg wedi dechrau amlygu rhywfaint o gamaliniad.

Technolegau bwyd

- Bydd angen parhau i graffu ar fframweithiau rheoleiddio er mwyn sicrhau eu bod yn asesu'n briodol y peryglon sy'n gysylltiedig â thechnolegau newydd neu ddefnydd newydd o dechnoleg sy'n bodoli eisoes. Yn ogystal â hyn, gallai fod her bellach o sut i reoleiddio peryglon sy'n codi ar draws gadwyni cyflenwi byd-eang cymhleth pan fo rheolau'n amrywio o ranbarth i ranbarth.

Blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Strategol newydd

- Lleihau halogiad microbiolegol er mwyn sicrhau gostyngiad yn nifer cyffredinol yr achosion o afiechyd sy'n cael ei gario mewn bwyd. Yn benodol:
  - trwy fynd i'r fael â'r pathogenau allweddol sy'n cael eu cario mewn bwyd. Mae Campylobacter a Salmonela mewn dofednod yn flaenoriaeth ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd.
  - trwy ddatblygu ein gwybodaeth am ba ymyriadau sy'n gweithio (mesurau rheoli, cymhellion, a sancsiynau) a fydd yn codi safonau. Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gafwyd, dilyn dull sy'n seiliedig ar risg ar draws y gadwyn fwyd er mwyn cynyddu cydymffurfiad.
- Lleihau halogiad nad yw'n ficrobiolegol yn y cyflenwad bwyd. Sganio'r gorwel a gwyliadwriaeth a arweinir gan gudd-wybodaeth ar gyfer olrheinadwyedd cynhwysion allweddol a ddefnyddir mewn amrywiaeth eang o gynhyrchion. Defnyddio'r wybodaeth ar gyfer mesurau rheoli, gan gynnwys mewn porthladdoedd (cysylltiadau â chanlyniad blaenorol FS1).

Gweithredu a darparu mesurau rheoli diogelwch bwyd effeithiol

- Mae rhoi strategaethau ar waith i fynd i'r afael â pheryglon halogiad microbiolegol a pheryglon halogiad eraill ar draws y cyflenwad bwyd yn golygu bod angen casglu cudd-wybodaeth a phartneriaethau darparu effeithiol er mwyn nodi a gweithredu'r dulliau gorau i gynnal a gwella lefelau diogelwch bwyd cyfredol ym mwyd y DU. Mae angen darganfod lle i sicrhau'r dylanwad a'r effaith mwyaf ac yna datblygu a gweithredu polisi ar gyfer partneriaethau gyda diwydiant a phartneriaid gorfodi ar draws cadwyn gyflenwi'r DU.
- Mae dadansoddiadau o'r gadwyn fwyd yn awgrymu bod sawl mesur rheoli swyddogol wedi'u cam-alinio â pheryglon i iechyd y cyhoedd. Y camau nesaf fyddai datblygu dewisiadau ar gyfer newid a modelu effaith newidiadau ar lefelau risg; mae gwaith ar hyn wedi cychwyn mewn rhai meysydd (e.e. mesurau rheoli swyddogol ar gyfer BSE mewn gwartheg).
- Gan ddefnyddio'r canfyddiadau hyn (a manteisio ar waith ymchwil ac arferion gorau byd-eang),

symud tuag at fesurau rheoli cymesur sy'n fwy seiliedig ar risg ar draws y gadwyn gyflenwi, a gwneud mesurau rheoli cig yn flaenoriaeth.

- Cynnal gwyliadwriaeth effeithiol i ganfod unrhyw newid andwyol mewn risg ynghyd â newidiadau o ran mesurau rheoli swyddogol.

Creu sail i anghenion gwyddoniaeth a thystiolaeth

- Mae'n rhaid i raglen ymchwil a gwyliadwriaeth gynhwysfawr sydd wedi'i thargedu fod ar waith er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o ffynonellau perthnasol peryglon diogelwch bwyd, ac yn gallu ymateb yn briodol.
- Angen sganio'r gorwel yn well a gwybodaeth well am y defnydd o dechnoleg wrth gynhyrchu bwyd.

CANLYNIAD FS3: Mae defnyddwyr yn gwneud dewisiadau cytbwys am ddiogelwch bwyd pan fyddant yn bwyta y tu allan i'r cartref, ac wrth baratoi a choginio bwyd yn ddiogel yn y cartref

Dadansoddiad risg

Natur a graddfa'r perygl i iechyd y cyhoedd

- Afiechydon sy'n cael eu Cario mewn Bwyd yw'r perygl hysbys mwyaf i ddiogelwch bwyd o bell ffordd (gweler Tabl 1). Mae'n ymddangos bod niferoedd achosion yn cynyddu unwaith eto ar ôl cyfnod 5 mlynedd o ostyngiad cyson. Mae cyfraddau Listeria wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r perygl i iechyd y cyhoedd yn fwyaf acíwt ymhlith yr henoed a phlant ifanc iawn.
- Mewn achosion eithafol, gall ymatebion alergaidd i fwyd roi bywydau yn y fantol. Rheolir y perygl i iechyd y cyhoedd trwy labelu bwyd a thrwy ddarparu gwybodaeth i gynorthwyo pobl sy'n gorfod osgoi cynhwysion penodol.

Dadansoddi'r gadwyn fwyd: Allfeydd gwasanaethau bwyd a'r cartref

- Mae cyfran uchel o gyw-iâr amrwd a brynir gan ddefnyddwyr wedi'i halogi gyda Champylobacter a thros 5% gyda Salmonela. Mae'r perygl hwn yn cyfateb i ddegau o filiynau o brydau yn y cartref yr wythnos cyn eu coginio, ac mae'n berygl sylweddol os na ddilynir arferion hylendid da.
- Prin yw'r wybodaeth am lefelau halogiad microbiolegol mewn sefydliadau arlwyo a lleoliadau eraill y tu allan i'r cartref.
- Mae Listeria'n berygl yn ystod y cam hwn yn y gadwyn fwyd. Gall Listeria dyfu mewn tymheredd isel ac mae halogiad yn cynyddu po hiraf y cedwir y bwyd.
- Wrth baratoi bwyd, mae croeshalogi rhwng cig amrwd a bwydydd parod neu'r arwynebau a ddefnyddir ar eu cyfer yn berygl allweddol. Mae tan-goginio bwyd yn ffactor risg hefyd.
- Ar gyfartaledd, arolygir tua 50% o fusnesau arlwyo (arolygiad sylfaenol) unwaith y flwyddyn a thua awr yw hyd arolygiad ar gyfartaledd.

Casgliadau ar gyfer cynllunio strategol

- Mae cyfraddau halogiad microbiolegol yn ystod y cam hwn yn y gadwyn fwyd yn amlygu'r angen i liniaru'r peryglon o afiechyd sy'n cael ei gludo mewn bwyd wrth baratoi bwyd.

Blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Strategol newydd

- Lleihau halogiad microbiolegol er mwyn sicrhau gostyngiad yng nghyfanswm yr achosion o afiechyd sy'n cael ei gario mewn bwyd. Yn benodol
  - Datblygu ein gwybodaeth o ba ymyriadau sy'n gweithio o ran codi safonau hylendid mewn allfeydd gwasanaethau bwyd (gan gynnwys mesurau rheoli, cymhellion a chosbau)

Gweithredu a darparu mesurau rheoli diogelwch bwyd effeithiol

- Rhoi un cynllun 'Sgorau ar y Drysau' ar waith ar gyfer busnesau

Creu sail i anghenion gwyddoniaeth a thystiolaeth

- Cynyddu dealltwriaeth o agweddau defnyddwyr ac ymddygiad i gynorthwyo'r nod o leihau gwenwyn bwyd mewn allfeydd gwasanaethau bwyd ac yn y cartref

Canlyniad trawsbynciol sy'n cefnogi amcanion diogelwch bwyd ac iechyd deietegol

CANLYNIAD: Trefn reoleiddio gymesur, sy'n seiliedig ar risg ynghylch bwyd, sy'n eglur ynglŷn â chyfrifoldebau busnesau bwyd ac eraill, ac sy'n magu hyder y cyhoedd mewn bwyd

Dadansoddi Risg

Natur a graddfa'r risg

- Mae deddfwriaeth bwyd, ar lefel genedlaethol a'r UE, wedi'i sefydlu i ddiogelu iechyd defnyddwyr rhag pob perygl bwyd hysbys. Mae hefyd yn sefydlu hawl defnyddwyr i dderbyn gwybodaeth gywir a didwyll.
- Un o swyddogaethau pwysig yr ASB yw sicrhau bod rheoliadau newydd a chyfredol yn gymesur fel y gallwn barhau i ymdrechu i sicrhau canlyniadau gwell mewn meysydd lle gallwn gael yr effaith fwyaf.
- Yn ogystal â'r rheoliadau sy'n cyfrannu at ein diogelwch bwyd a'n hamcanion iechyd deietegol, mae deddfwriaeth bwyd hefyd yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud â safonau cyfansoddiadol, labelu (e.e. gwlad y tarddiad) ac ati sydd hefyd yn cyfrannu at hyder y cyhoedd.

Blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Strategol newydd

- Darparu cyfundrefn arolygu a gorfodi effeithiol sy'n seiliedig ar risg
- Rheoleiddio gwell a mwy cymesur
- Cynyddu presenoldeb a dylanwad yr ASB yn yr UE ar gyfer ceisio sicrhau cyfundrefn reoleiddio sy'n fwy seiliedig ar risg; ac ar gyfer cydweithredu â chyrff rhyngwladol, a gwledydd nad ydynt yn rhan o'r UE

Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu dull ar gyfer salwch sy'n gysylltiedig â deiet, ac rydym yn gobeithio y bydd yn cynnig cyfraniad tebyg i'r cynllun strategol â'r dadansoddiad o ddiogelwch bwyd. Byddwn yn ystyried peryglon ar draws y deiet; peryglon ar draws cyfnodau bywyd; ac atebion posibl ar draws y gadwyn fwyd.

Tabl 2: Amcangyfrifon o'r prif beryglon i iechyd y cyhoedd[1]

Mae lechyd Deietegol Gwael yn Cyfrannu at: (pob achos – yn darparu terfyn uchaf ar gyfer achosion sy'n gysylltiedig â bwyd)			**Peryglon Canolradd – Amcan o Nifer yr Achosion**		**Olrheiniwr Defnyddwyr yr ASB % yn berthnasol i fis Rhagfyr 2008**	
	Marwolaeth yn y DU[2]	**Amcan o Nifer yr Achosion**				
Pob Math o Ganser	155,000	2,000,000 (2008)	Pwysedd gwaed uchel	14.5m (2007)	Halen	43%
Clefyd coronaidd y galon	95,000	2,600,000 (2007)	Gordewdra	11.7m (2007)	Braster	40%
Strôc	55,000	1,100,000 (2007)	Colesterol uchel	29m (2006)	Braster Dirlawn	36%
Diagnosis o ddiabetes Math 2	6,000	1,852,000 (2007)			Siwgr	41%

[1] Amcangyfrifwyd nifer yr achosion o ganser gan *Cancer Research UK* http://info.cancerresearchuk.org/cancerstats/incidence/prevalence/?a=5441, cyfrifwyd yr amcangyfrifon o nifer achosion eraill yn '*Health Survey for England*' ac fe'u haddaswyd ar gyfer poblogaeth y DU
[2] Marwolaethau a gofrestrwyd yn y DU yn 2006 fesul achos a gymerwyd o *Annual Abstract of Statistics*, rhif 144 Rhifyn 2008 y Swyddfa Ystadegau Gwladol http://www.statistics.gov.uk/downloads/theme_compendia/AA2008/AA2008.pdf

- Mae dadansoddi patrymau bwyta yn dangos bod nifer o achosion o anghydbwysedd dietegol pwysig yn y DU ar draws amrywiaeth eang o faetholion, a bod y rhain yn gyffredin ar draws grwpiau yn y boblogaeth a thrwy gyfnodau bywyd.
- Mae anghydbwysedd allweddol sy'n cael effaith sylweddol ar iechyd yn cynnwys bwyta gormod o halen, braster dirlawn ac siwgrau NMES (Non Milk Extrinsic Sugars), methu â chynnal cydbwysedd priodol o ran calorïau a pheidio â bwyta digon o ffrwythau a llysiau neu bysgod olewog.
- Yn gyffredinol, ceir cymeriant isel o ficrofaetholion ymhlith yr unigolion hynny nad ydynt yn dilyn canllawiau cyffredinol ar gyfer diet iach a chytbwys.

Tueddiadau a rhagolygon

- Mae'r boblogaeth yn heneiddio, a rhagwelir y bydd mân gynnydd yn nifer y bobl 65 mlwydd oed a hŷn erbyn 2015 ond cynnydd sylweddol erbyn 2035, a fydd yn cynyddu baich afiechydon sy'n ymwneud â deiet (gan gynnwys Clefyd Coronaidd y Galon, rhai mathau o ganser, strôc a diabetes math 2)
- Mae costau gofal iechyd yn cynyddu oherwydd datblygiadau ym myd gwyddoniaeth a thechnoleg a thueddiadau poblogaeth
- Gostyngodd cyfanswm dyddiol cyfartalog yr halen sy'n cael ei fwyta o 9.5g yn 2001 i 8.6g ddechrau 2008
- Disgwylir y bydd gordewdra'n cynyddu o 1/3 ymhlith gwrywod ac o 1/5 ymhlith menywod erbyn 2015 (mae achosion gordewdra'n gymhleth ac yn lluosog)

- Mae cyfraddau gordewdra cynyddol yn arwain at gynnydd yn y baich afiechyd ar gyfer afiechydon cysylltiedig. Roedd amlder achosion o ddiabetes math II, er enghraifft, 66 y cant yn uwch yn 2005 nag ym 1996.

Noder: bydd y wybodaeth am iechyd deietegol yn cael ei hadolygu a'i diweddaru yng ngoleuni'r dadansoddi pellach sy'n cael ei gyflawni. Syniadau cychwynnol yw'r adran hon.

Mae'r adran ganlynol yn disgrifio'n fwy manwl y blaenoriaethau strategol arfaethedig (gweler Ffigur 2 ymgynghoriad y strategaeth) a'r cysylltiad â strategaethau Llywodraeth y DU.

CANLYNIAD HE1: Mae cynhyrchion manwerthu a phrydau arlwyo'n iachach
Dadansoddi risg
Gweler Tabl 2 a gwybodaeth gysylltiedig. Bydd y wybodaeth ar gyfer iechyd deietegol yn cael ei hadolygu a'i diweddaru yng ngoleuni dadansoddi pellach sy'n cael ei gyflawni.
Blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Strategol newydd
• Gostyngiadau pellach i lefelau braster dirlawn, halen a siwgr mewn cynhyrchion prif ffrwd, a; • Mwy o ddewisiadau iachach ar gael mewn gwasanaethau manwerthu a bwyd: • trwy weithio mewn partneriaeth â'r diwydiant bwyd (manwerthwyr, cynhyrchwyr ac arlwywyr) a thrwy osod targedau. Trwy wneud hynny, blaenoriaethu sylw ar y rhannau hynny o'r deiet a'r sectorau hynny o'r diwydiant a fydd yn cynnig y budd mwyaf i ddefnyddwyr. • Cynyddu lefel a chyflymder newid mewn lleoliadau bwyta allan • Monitro newidiadau mewn arferion dietegol a statws maeth poblogaeth y DU, a modelu effaith newidiadau ar arferion defnyddwyr a chynhyrchion **Cydgysylltir y gweithgareddau hyn â blaenoriaethau ar draws y pedair Llywodraeth, a bydd angen i ni weithio'n agos gyda hwy i benderfynu lle rydym yn y sefyllfa orau i ddatblygu gwaith.**
Strategaethau'r Llywodraeth
Cod Arferion Da Bwyd Iach yr Adran Iechyd - *Healthy Weight Healthy Lives*: • Dognau llai ar gyfer bwydydd sy'n llawn ynni a halen • Gostyngiadau i fraster dirlawn a siwgr yn yr un modd â'r camau parhaus yng nghyswllt halen • Symud tuag at ddarpariaeth iachach yn y sector arlwyo *Food Matters: Towards a Strategy for the 21st Century*: • Gwella safon maeth y bwyd sydd ar gael wrth fwyta y tu allan i'r cartref • Nod bwyd iachach yn y sector cyhoeddus *The Future: A Food and Drink Policy for Scotland*: • Rhaglen Byw'n Iach y *Scottish Grocers Federation* (SGF) Healthy Living Programme • Dyfarniad Byw'n Iach Cynllun Gweithredu Ansawdd Bwyd drafft Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- Adeiladu ar waith ar lefel y DU trwy annog y diwydiant bwyd yng Nghymru i gynnig dewisiadau iachach - ar y lefel manwerthu ac yn y sector arlwyo - ac i wella labelu

Strategaeth Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd (DHSSPS) Gogledd Iwerddon – *Fit Futures, Focus on Food, Activity and Young People*:

- Datblygu un system labelu ar gyfer blaen pecynnau
- Addysg o ansawdd da ynglŷn â maeth i'r rhai sy'n gweithio yn y sector bwyd ac estyn croeso

CANLYNIAD HE2: Mae manwerthwyr, cynhyrchwyr ac arlwywyr yn darparu'r wybodaeth am faeth sydd ei hangen ar ddefnyddwyr i wneud dewisiadau iach

Dadansoddiad risg

Gweler Tabl 2 a gwybodaeth gysylltiedig. Bydd y wybodaeth ar gyfer iechyd deietegol yn cael ei hadolygu a'i diweddaru yng ngoleuni'r dadansoddi pellach sy'n cael ei gyflawni.

Blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Strategol newydd

- Holl rannau'r diwydiant bwyd i ddilyn argymhellion y Llywodraeth ar gyfer labelu blaen pecynnau effeithiol sy'n cynorthwyo defnyddwyr i wneud dewisiadau iachach yn hawdd.
- Cynyddu'r ddarpariaeth o wybodaeth am faeth mewn amrywiaeth eang o allfeydd arlwyo.

Cydgysylltir y gweithgareddau hyn â blaenoriaethau ar draws y pedair Llywodraeth, a bydd angen i ni weithio'n agos gyda hwy i benderfynu lle rydym yn y sefyllfa orau i ddatblygu gwaith.

Strategaethau'r llywodraeth

Cod Arferion Da Bwyd Iach yr Adran Iechyd - *Healthy Weight Healthy Lives*:

- Un dull syml ac effeithiol o labelu bwyd a ddefnyddir gan y diwydiant bwyd cyfan
- Ail-gydbwyso marchnata, hyrwyddo, hysbysebu a lleoli ar y pwynt gwerthu fel ein bod yn lleihau pa mor agored yw plant i hysbysebion bwyd sydd yn cynnwys braster, halen neu siwgr uchel, a chynyddu faint o hysbysebion dewisiadau iachach y maent yn eu gweld
- Gwybodaeth am gynnwys maeth bwyd mewn amrywiaeth eang o leoliadau i fod yn eglur, yn effeithiol ac yn hawdd ei deall

Food Matters: Towards a Strategy for the 21st Century:

- Y ddarpariaeth o wybodaeth wrth fwyta y tu allan i'r cartref

The Future: A Food and Drink Policy for Scotland:

- Dyfarniad Byw'n Iach

Cynllun Gweithredu Ansawdd Bwyd drafft Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- Annog y diwydiant bwyd yng Nghymru i gynnig dewisiadau iachach - ar y lefel manwerthu ac yn y sector arlwyo - ac i wella labelu

Strategaeth Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd (DHSSPS) Gogledd Iwerddon – *Fit Futures, Focus on Food, Activity and Young People*:

- Datblygu un system labelu ar gyfer blaen pecynnau
- Addysg o ansawdd da ynglŷn â maeth i'r rhai sy'n gweithio yn y sector bwyd ac estyn croeso

CANLYNIAD HE3: Mae defnyddwyr yn wybodus am fwyd a deiet iach ac yn paratoi a choginio prydau iachus yn y cartref

Dadansoddi risg

Gweler Tabl 2 a gwybodaeth gysylltiedig. Bydd y wybodaeth ar gyfer iechyd deietegol yn cael ei hadolygu a'i diweddaru yng ngoleuni'r dadansoddi pellach sy'n cael ei gyflawni.

Blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Strategol newydd

- Pob busnes bwyd i gyfleu un gyfres o negeseuon bwyta'n iach allweddol.
- Cynyddu'r cymeriant o fwydydd iachach, yn enwedig ffrwythau a llysiau.
- Hyrwyddo'r ASB fel y ffynhonnell wybodaeth am fwyd y gellir ymddiried ynddi, a chefnogi bwyta'n iach trwy amrywiaeth eang o gyfryngau (gan gynnwys ar y we, taflenni a chyfleoedd arloesol eraill).
- Integreiddio cyngor y Llywodraeth i ddefnyddwyr ar faeth, bwyd a chynaliadwyedd, a diogelwch bwyd gydag Adrannau eraill y Llywodraeth (daw'r argymhelliad hwn o'r adroddiad *Food Matters* ac mae'n destun trafodaeth ar draws y Llywodraeth ar hyn o bryd).
- Ysgogi galw am gynhyrchion sy'n cynnwys llai o halen a braster dirlawn, ac annog newid i ymddygiad sy'n lleihau faint o'r maetholion hyn sy'n cael eu bwyta, gan ddefnyddio ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus.

Anghenion tystiolaeth a gwyddoniaeth sylfaenol

- Gwerthuso effaith ymyriadau iechyd y cyhoedd ar ddeiet a maeth.
- Deall ar ba sail y mae grwpiau penodol o'r boblogaeth yn gwneud dewisiadau bwyd a phenderfynu sut y gellir goresgyn rhwystrau ar gyfer y grwpiau hynny.

Cydgysylltir y gweithgareddau hyn â blaenoriaethau ar draws y pedair Llywodraeth, a bydd angen i ni weithio'n agos gyda hwy i benderfynu lle rydym yn y sefyllfa orau i ddatblygu gwaith.

Strategaethau'r llywodraeth

Cod Arferion Da Bwyd Iach yr Adran Iechyd - *Healthy Weight Healthy Lives*:

- Pob busnes bwyd i ddarparu un gyfres o negeseuon bwyta'n iach allweddol
- Mwy o fwydydd iachach yn cael eu bwyta, yn enwedig ffrwythau a llysiau
- Ymgyrch 'Newid am Oes'

Food Matters: Towards a Strategy for the 21st Century:

- Ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr gael mynediad at wybodaeth am ddeiet iach nad yw'n effeithio llawer ar yr amgylchedd
- Cyd-strategaeth ymchwil ar gyfer bwyd
- Ymgyfuno ymgyrchoedd marchnata a chyfathrebu sy'n ymwneud â bwyd
- Deialog GM

The Future: A Food and Drink Policy for Scotland:

- *Healthy Eating, Active Living (HEAL) - An action plan to improve diet, increase physical activity*

and tackle obesity (2008-2011)

- Ymgyrch *Take Life On*
- *The Schools Health Promotion and Nutrition (Scotland) Act 2007*, gan gynnwys cyfraniad i adran bwyd ac iechyd y cwricwlwm newydd ar gyfer rhagoriaeth

Cynllun Gweithredu Ansawdd Bwyd drafft Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- datblygu adnoddau'n benodol i gynorthwyo grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) i fabwysiadu deietau iachus
- sicrhau bod ymgyrchoedd y DU yn cael eu dosbarthu'n briodol yng Nghymru (mae hyn hefyd yn cysylltu â'r ddarpariaeth o wybodaeth i ddefnyddwyr trwy gyfrwng y Gymraeg);
- gwell integreiddio o ran agendâu bwyd yng Nghymru a sicrhau bod cyngor i ddefnyddwyr yn dod â materion bwyta'n iach, diogelwch a chynaliadwyedd at ei gilydd

Strategaeth Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd (DHSSPS) Gogledd Iwerddon – *Fit Futures, Focus on Food, Activity and Young People*:

- Cyfathrebu pwysigrwydd deiet a ffordd o fyw gytbwys wrth hyrwyddo negeseuon penodol ynglŷn â maeth
- Polisi cyfannol ar fwyd mewn ysgolion yn mynd i'r afael â'r ddarpariaeth fwyd, addysg ynglŷn â maeth a sgiliau coginio
- Datblygu gallu mewn cymunedau difreintiedig i fynd i'r afael â rhwystrau rhag mynediad at fwyd iachus

Crynodeb: Ymyrraeth a Dewisiadau		
Adran /Asiantaeth: **Yr Asiantaeth Safonau Bwyd**	**Teitl: Asesiad o Effaith y Strategaeth ASB arfaethedig ar gyfer 2010-2015**	
Cam: Ymgynghori	**Fersiwn:** 1	**Dyddiad:** 9 Mawrth 2009
Cyhoeddiadau Cysylltiedig: Cynllun Strategol hyd at 2010 - Rhoi Defnyddwyr yn Gyntaf; Cynllun Strategol yr ASB ar gyfer 2005-2010 Rhoi Defnyddwyr yn Gyntaf		

Ar gael i'w ddarllen neu ei lawrlwytho yn: http://wwwww.food.gov.uk/consultations

Cyswllt ar gyfer ymholiadau: Bethan Campbell **Ffôn:** 020 7276 8635

Beth yw'r broblem dan ystyriaeth? Pam mae angen i'r llywodraeth ymyrryd?

Mae methiannau o ran diogelwch bwyd ac effaith iechyd deietegol gwael (er enghraifft) yn golygu costau i gymdeithas yn ogystal ag unigolion, o ganlyniad i fethiant y farchnad yn y system fwyd, megis anghymesuredd gwybodaeth, diffyg gwybodaeth ac allanoldebau. O ganlyniad, ystyrir bod angen i'r llywodraeth ymyrryd ar ffurf yr Asiantaeth (yn amodol ar y costau a'r manteision) i fynd i'r afael â methiannau yn y farchnad o ran bwyd. Sefydlwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 gyda'r prif ddiben o

'Amddiffyn iechyd y cyhoedd rhag peryglon a allai godi mewn cysylltiad â bwyta bwyd, a hefyd i amddiffyn buddiannau defnyddwyr mewn cysylltiad â bwyd'.

Gan fod amrywiaeth o fethiannau'r farchnad y gallai'r Asiantaeth fynd i'r afael â hwy a bod adnoddau'n gyfyngedig, mae angen blaenoriaethu materion trwy greu cynllun strategol.

Mae'r Asiantaeth yn gweithredu o fewn fframwaith cyfraith yr UE ac mae'n rhaid iddi hefyd sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau o ran yr UE, gan gynnwys fel yr awdurdod cymwys canolog ym maes cyfraith bwyd.

Beth yw'r amcanion polisi a'r effeithiau a fwriedir?

Dull o reoli yw cynllun strategol i sicrhau ein bod yn eglur am ein cyfeiriad o ran ein hamgylchedd. Gallwn neilltuo adnoddau wedyn i ddilyn y strategaeth hon a bod mewn gwell sefyllfa i ymateb i'r amgylchedd newidiol. Effaith fwriadedig y cynllun strategol yw canolbwyntio adnoddau'r Asiantaeth ar y materion pwysicaf a chyflawni gwerth am arian.

Pa ddewisiadau polisi sydd wedi eu hystyried? Dylech gyfiawnhau unrhyw ddewis.

Rydym wedi ystyried pob un o weithgareddau cyfredol yr ASB yn ogystal â thrafod meysydd gwaith newydd posibl. Y dewis cyntaf o bolisi yw seilio strategaeth yr ASB ar effaith ar iechyd y cyhoedd - sy'n cefnogi ein diben presennol - 'Bwyd Diogel a Bwyta'n Iach i Bawb'.

Yn ystod y cam hwn, rydym wedi ystyried dadansoddiadau risg, ynghyd ag ystyriaeth o ffactorau eraill, i ddatblygu fframwaith o ganlyniadau lefel uchel, ac rydym ni o'r farn mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o sicrhau effaith orau i iechyd y cyhoedd, o fewn ein cylch gorchwyl. Bydd targedau manwl a chynlluniau gweithredu'n cael eu datblygu'n ddiweddarach.

Pryd fydd y polisi'n cael ei adolygu i ganfod y costau a'r buddion gwirioneddol a chyflawniad yr effeithiau dymunol?

Bydd system rheoli perfformiad yr ASB yn monitro cynnydd bob chwarter; bydd adolygiad llawn o'r strategaeth wedi'i gyflawni erbyn mis Ebrill 2015 fan bellaf.

Llofnod Gweinidog/Prif Swyddog Gweithredol Ar gyfer Asesiadau Effaith y cam ymgynghori:

Rwyf wedi darllen yr Asesiad Effaith ac rwyf yn fodlon ei fod (a) yn cynrychioli safbwynt deg a rhesymol o gostau, buddion ac effaith ddisgwyliedig y polisi, a (b) bod y buddion yn cyfiawnhau'r costau.

Llofnodwyd gan Gadeirydd a Phrif Weithredwr yr Asiantaeth Safonau Bwyd:

.....Dyddiad: 9/3/09

Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth

Dewis Polisi:	Disgrifiad:

COSTAU

COSTAU BLYNYDDOL	Disgrifiad a graddfa **costau ariannol allweddol** fesul 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'
Untro (Trawsnewid) **B'oedd** £	Nid yw'r costau ariannol ar gael eto gan y bydd hyn yn dibynnu'n bennaf ar y targedau a osodir a'r cynlluniau gweithredu nad ydynt wedi'u datblygu eto.
Cost Flynyddol Gyfartalog (ac eithrio'r gost untro) £	**Cyfanswm y Gost** (PV) £

Costau eraill allweddol nad ydynt yn ariannol fesul 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

BUDDION

BUDDION BLYNYDDOL	Disgrifiad a graddfa **buddion ariannol allweddol** fesul 'prif grwpiau a effeithir'
Untro **B'oedd** £	Nid yw'r buddion ariannol ar gael eto gan y bydd hyn yn dibynnu'n bennaf ar y targedau a osodir a'r cynlluniau gweithredu nad ydynt wedi'u datblygu eto.
Buddion Blynyddol Cyfartalog (ac eithrio'r budd untro) £	**Cyfanswm y Buddion** (PV) £

Buddion eraill allweddol nad ydynt yn ariannol fesul 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'

Tybiaethau Allweddol/Agweddau Sensitif/Peryglon

Sail Pris Blwyddyn	Cyfnod Amser Blynyddoedd	**Ystod Buddion Net** (NPV) £	**BUDDION NET** (amcan gorau NPV) £

I ba ardal ddaearyddol y bydd y polisi/dewis yn berthnasol?			DU	
Ar ba ddyddiad y bydd y polisi'n cael ei roi ar waith?			Ebrill 2010	
Pa sefydliad(au) fydd yn gorfodi'r polisi?			Amherthnasol	
Beth yw cyfanswm y gost orfodi flynyddol ar gyfer y sefydliadau hyn?			£ Amherthnasol	
A yw'r gorfodi'n cydymffurfio ag egwyddorion Hampton?			Amherthnasol	
A fydd ei weithrediad yn mynd y tu hwnt i safonau gofynnol yr UE?			Amherthnasol	
Beth yw gwerth y mesur gosod yn erbyn arfaethedig y flwyddyn?			£ Amherthnasol	
Beth yw gwerth newidiadau i allyriadau nwyon tŷ gwydr?			£ Nid yw'n hysbys	
A fydd y cynnig yn effeithio'n sylweddol ar gystadleuaeth?			Nid yw'n hysbys	
Cost flynyddol (£-£) fesul sefydliad (ac eithrio'r gost untro)	Micro	Bach	Canolig	Mawr
A yw'r sefydliadau hyn wedi'u heithrio?	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol

Effaith ar Linell Sylfaen y Baich Gweinyddol (Prisiau 2005)					(Cynnydd -Gostyngiad)
Cynnydd o	£	Gostyngiad o	£	**Effaith Net**	**£**

Allwedd:	**Costau a buddion blynyddol: Prisiau Cyson**	**Gwerth Presennol (Net)**

Sail Tystiolaeth (ar gyfer taflenni crynodeb)

Mae'r templed hwn wedi'i gynllunio ar gyfer asesu polisïau, yn hytrach na rhaglenni neu strategaethau, ac nid yw'n gwbl berthnasol ar gyfer asesu strategaeth gyfan. Gweler Atodiad B i gael mwy o dystiolaeth o'r blaenoriaethau arfaethedig.

Bydd dewisiadau manwl ar gyfer unrhyw newidiadau arfaethedig i bolisïau penodol yn rhan o'r broses Asesu Effaith ar gyfer polisïau newydd neu ddiwygiedig sy'n deillio o'r strategaeth newydd.

Costau a buddion y dewisiadau

Nid yw Strategaeth yr ASB hyd yn hyn wedi cyrraedd cam lle gellir asesu dadansoddiad o gostau a buddion eto.

Costau Baich Gweinyddol

Nid yw Strategaeth yr ASB yn bolisi y dylai'r diwydiant bwyd ei roi ar waith yn uniongyrchol. Wrth i bolisïau gael eu cyflwyno o ganlyniad i'r strategaeth newydd, byddant yn destun Asesiadau o Effaith ar wahân.

Gorfodi

Nid yw Strategaeth yr ASB yn bolisi y dylai ein partneriaid gorfodi ei rhoi ar waith yn uniongyrchol. Wrth i bolisïau gael eu cyflwyno o ganlyniad i'r strategaeth newydd, byddant yn destun Asesiadau o Effaith ar wahân.

Symleiddio

Mae gan yr ASB raglen symleiddio rheoliadau barhaus. Nod y rhaglen hon yw ei gwneud yn haws i fusnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector (megis elusennau a sefydliadau gwirfoddol), ddeall a chydymffurfio â rheoliadau, heb roi diogelwch y cyhoedd na buddiannau eraill defnyddwyr mewn perygl. Bydd yr holl fentrau yng Nghynllun Strategol yr ASB yn cael eu rhoi ar waith gan sicrhau'r baich lleiaf posibl ar ein rhanddeiliaid i gyd.

Gweithredu ac Adolygu

Bydd y strategaeth derfynol yn cael ei rhoi ar waith yn yr ASB ym mis Ebrill 2010, a bydd cynlluniau busnes sefydliadol yn adlewyrchu'r strategaeth o'r dyddiad hwn ymlaen. Bydd yr ASB yn monitro llwyddiant yn erbyn y strategaeth bob chwarter o fewn ei fframwaith rheoli perfformiad, ynghyd ag adolygu ac adnewyddu blynyddol i sicrhau bod y strategaeth yn parhau i fod yn berthnasol.

Mae dymuniad cryf i wella gwaith gwerthuso yn yr ASB a bydd hyn o gymorth i ni sicrhau ein bod yn cael cymaint o effaith â phosibl ac yn sicrhau gwerth am arian o adnoddau. Mae ysgogiad trawslywodraethol hefyd i fuddsoddi mewn llai o astudiaethau gwerthuso ond sydd o ansawdd uwch. Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n datblygu rhaglen werthuso ar gyfer 2010 i 2015 i gyd-fynd â strategaeth newydd yr ASB.

Bydd adolygiad o'r strategaeth wedi'i gychwyn erbyn 2014 fan bellaf er mwyn datblygu strategaeth wedi'i hadnewyddu ar gyfer 2015.

Bydd polisïau penodol a gyflwynir neu a ddiwygir o ganlyniad i'r strategaeth newydd yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith ar wahân.

Profion Effaith Penodol: Rhestr Wirio

Defnyddiwch y tabl isod i ddangos pa mor eang yr ydych wedi ystyried effeithiau posibl eich dewisiadau polisi.

Sicrhewch fod canlyniadau unrhyw brofion sy'n effeithio ar y dadansoddiad costau-buddion wedi'u cynnwys yn y brif sail tystiolaeth; gellir atodi canlyniadau eraill.

Math o brawf a gynhaliwyd	***Canlyniadau yn y Sail Tystiolaeth?***	***Canlyniadau wedi'u hatodi?***
Asesiad Cystadleuaeth	Nac ydynt	Nac ydynt
Prawf Effaith ar Gwmnïau Bach	Nac ydynt	Nac ydynt
Cymorth Cyfreithiol	Nac ydynt	Nac ydynt
Datblygu Cynaliadwy	Nac ydynt	Nac ydynt
Asesiad Carbon	Nac ydynt	Nac ydynt
Amgylchedd Arall	Nac ydynt	Nac ydynt
Asesiad Effaith ar Iechyd	Ydynt (gweler Atodiad B)	Nac ydynt
Cydraddoldeb Hiliol	Nac ydynt	Nac ydynt
Cydraddoldeb i Bobl Anabl	Nac ydynt	Nac ydynt
Cydraddoldeb Rhywiol	Nac ydynt	Nac ydynt
Hawliau Dynol	Nac ydynt	Nac ydynt
Prawfesur Polisïau Gwledig	Nac ydynt	Nac ydynt

Atodiadau

Defnyddiwch y lle sydd ar gael isod i ddynodi eich ystyriaeth o un o'r profion effaith penodol canlynol o leiaf.

Asesiad Cystadleuaeth

Nid yw Strategaeth yr ASB yn bolisi y dylai'r diwydiant bwyd ei roi ar waith yn uniongyrchol. Wrth i bolisïau gael eu cyflwyno o ganlyniad i'r strategaeth newydd, byddant yn destun Asesiadau o Effaith ar wahân.

Prawf Effaith ar Gwmnïau Bach

Nid yw Strategaeth yr ASB yn bolisi y dylai'r diwydiant bwyd ei roi ar waith yn uniongyrchol. Wrth i bolisïau gael eu cyflwyno o ganlyniad i'r strategaeth newydd, byddant yn destun Asesiadau o Effaith ar wahân.

Datblygu cynaliadwy

Oherwydd natur Strategaeth yr ASB, ni ellir asesu'r effaith. Fodd bynnag, bydd polisïau unigol sy'n deillio o Strategaeth yr ASB yn destun asesiad o effaith o'r math hwn.

Materion cydraddoldeb hiliol, cydraddoldeb rhywiol a chydraddoldeb i bobl anabl

Oherwydd natur Strategaeth yr ASB, ni ellir asesu'r effaith ar gydraddoldeb hiliol, cydraddoldeb rhywiol a chydraddoldeb i bobl anabl. Fodd bynnag, bydd polisïau unigol sy'n deillio o Strategaeth yr ASB yn destun asesiad o effaith o'r math hwn.

Academi’r Celfyddydau Coginiol
Academi'r Gwyddorau Meddygol
ADAS UK Cyf
Y Gymdeithas Hysbysebu
Age Concern
Cydffederasiwn y Diwydiannau Amaethyddol (AIC)
Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth
Y Sefydliad Bwyd-Amaeth a Biowyddoniaeth
ALDI Stores Cyf
Allergy UK
Ymgyrch Anaffylacsis
Iechyd Anifeiliaid
Y Fenter Dyframaethu
Aramark Cyf
Arla Foods UK
ASDA Stores Cyfyngedig
Associated British Foods ccc
Y Gymdeithas Spina Bifida a Hydroseffalws
Cymdeithas Perchnogion Lladd-dai Prydain
Y Gymdeithas Rhagoriaeth Arlwyo
Y Gymdeithas Cynhyrchwyr Grawnfwydydd
Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra
Y Gymdeithas Cyflenwyr Cig Annibynnol
Y Gymdeithas Arolygwyr Cig (DU) Cyf
Y Gymdeithas Elusennau Ymchwil Feddygol
Y Gymdeithas Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd (APHA)
Y Gymdeithas Athrawon Maeth Dynol
Y Gymdeithas Dadansoddwyr Cyhoeddus (APA)
Cymdeithas Tyfwyr Pysgod Cregyn yr Alban
Sicrwydd Cig Prydeinig (ABM)
Sicrwydd Moch Prydeinig (ABP)
Sicrwydd Cynhyrchu Cyw Iâr (ACF)
Sicrwydd Cnydau Cyfunadwy (ACCS)
Safonau Sicrwydd Bwyd (AFS)
Sicrwydd Cynnyrch (AP)
Asthma DU
Y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol (BBSRC)
Birds Eye Iglo Group
Y Gymdeithas Pwysau Gwaed
Y Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydeinig
Booker Group ccc
Boots
Brakes Group
Cymdeithas Cwrw a Thafarnau Prydain
Bwrdd Caws Prydain (BCB)
Cymdeithas Ddeieteg Prydain
Cyngor Diwydiant Wyau Prydain (Wyau Cynllun Ansawdd *Lion*)
Cymdeithas Mewnforwyr Bwyd Prydain
Ffederasiwn Bwyd Rhewedig Prydain

Sefydliad Prydeinig y Galon
Cymdeithas Lletygarwch Prydain
Cymdeithas Proseswyr Cig Prydain
Cymdeithas Feddygol Prydain
Sefydliad Maetheg Prydain
Cyngor Dofednod Prydain
Consortiwm Manwerthu Prydain
Cymdeithas Brechdanau Prydain
Cymdeithas Diodydd Meddal Prydain Cyf
Cymdeithas Milfeddygol Prydain
Budgens Stores Cyfyngedig
Burger King
Swyddfa'r Cabinet
Cadbury ccc
Yr ymgyrch dros amddiffyn *Shechita*
Cymdeithas Ymchwil Bwyd Campden a Chorleywood
Campden BRI
Cancer Research UK
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain
Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu
Y Labordy Gwyddoniaeth Canolog (CSL)
Partneriaid Grawnfwyd y DU
Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd
Y Gymdeithas Bwyd wedi'i Oeri
Coca-Cola Prydain Fawr ac Iwerddon
Coeliac UK
Cymunedau a Llywodraeth Leol
Compass Group UK & Ireland Cyfyngedig
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain
Consensus Action on Salt & Health
Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon
Llais Defnyddwyr
Grŵp Archfarchnadoedd *Costcutter* Cyf
Y Cyngor ar gyfer Maeth Cyfrifol
Y Cyngor Sefydliadau Sector Gwirfoddol
Lleiafrifoedd Ethnig
Y Cyngor Ymgynghorwyr Polisi Bwyd
Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad
Y Gynghrair Cefn Gwlad
Cyngor Llaeth Gogledd Iwerddon
Dairy Crest Group CCC
Dairy UK Cyf
Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd
Yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio
Yr Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau
Yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Gogledd Iwerddon)
Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
Yr Adran Iechyd

Yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch Cyhoeddus (Gogledd Iwerddon)
Prif Wyddonwyr Adrannol
Diabetes UK
Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru
Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol
Yr Arolygiaeth Marchnata Wyau (EMI)
Y Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol
Asiantaeth yr Amgylchedd
Y Comisiwn Ewropeaidd
Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop
Ymchwil Ewropeaidd i Faterion Defnyddwyr (ERICA)
Undeb Amaethwyr Cymru
Y Ffederasiwn Pobyddion
Y Ffederasiwn Cymdeithasau Olewau, Hadau a Brasterau (FOSFA)
Y Ffederasiwn Busnesau Bach
Y Ffederasiwn Dosbarthwyr Cyfanwerthu
First for Foodservice
Focus on Food
Y Gymdeithas Ychwanegion a Chynhwysion Bwyd
Y Ffederasiwn Bwyd a Diod
Canolfan Diwydiant Bwyd UWIC
Awdurdod Diogelwch Bwyd Iwerddon
Food Solutions Publishing Cyf
Y Fforwm Busnesau Preifat
Y Consortiwm Cynnyrch Ffres
Cyfeillion y Ddaear
Gondola Group Cyfyngedig
Prif Gynghorydd Economaidd y Llywodraeth
Swyddfa Wyddoniaeth y Llywodraeth
Gwasanaeth Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth
Green & Black's Cyf
Greencore
Greene King ccc
Greenpeace
Greggs Ccc
H J Heinz Company Cyf
Yr Awdurdod Bwyd Halal
Cymorth Syndrom Haemolytig Wremig
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Y Gymdeithas Cynhyrchwyr Bwyd Iechyd
Asiantaeth Hybu Iechyd Gogledd Iwerddon
Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd
Diogelu Iechyd yr Alban
H.E.A.R.T UK
Fforwm Hindwaidd Prydain
Hybu Cig Cymru
Iceland Foods Cyfyngedig
Imperial College

Yr Asiantaeth Gwella a Datblygu (IDeA)
Y Gymdeithas Bwyd Babanod a Dietetig
Y Sefydliad Ymchwil Bwyd
Y Sefydliad Gwyddoniaeth a Thechnoleg Bwyd
Institute of Grocery Distribution
Y Sefydliad Lletygarwch
Y Gymdeithas Masnach Cig Ryngwladol
Invest Gogledd Iwerddon
J Sainsbury Ccc
Kellogg Company (GB) Cyfyngedig
Kenko Commodities ccc
Kentucky Fried Chicken (y DU ac Iwerddon)
Kerry Food Cyf
Kraft Foods UK Cyf
Labordy Cemegydd y Llywodraeth (LGC)
LEAF Marque - Linking Environment and Farming
Leatherhead Food International
Licensed Animal Slaughterers & Salvage Association
Lidl UK
Comisiwn Da Byw a Chig Gogledd Iwerddon
Cydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoliadol yr Awdurdodau Lleol
Y Gymdeithas Arlwywyr Awdurdodau Lleol
Y Gymdeithas Llywodraeth Leol
Local Better Regulation Office
London School of Hygiene & Tropical Medicine
Marks and Spencer Group ccc
Mars UK Cyfyngedig
Masterfoods UK
McCain Food (GB) Cyf
McDonald's Restaurants Cyf
Y Cyngor Ymchwil Feddygol
Yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd
Mitchells & Butlers ccc
Ymchwil Maeth Dynol MRC
Muller Dairy (DU) Cyfyngedig
Partneriaid Manwerthu *Musgrave* Prydain Fawr
Cyngor Mwslimiaid Prydain
Cymdeithas Genedlaethol Melinwyr Prydeinig a Gwyddelig
Y Gymdeithas Genedlaethol Awdurdodau Marchnad Prydeinig
Y Gymdeithas Cig Eidion Genedlaethol
Y Ffederasiwn Defnyddwyr Cenedlaethol
Cyngor Cenedlaethol Merched Prydain Fawr
Y Sefydliad Teuluoedd a Rhianta Cenedlaethol
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Y Ffederasiwn Cenedlaethol Grwpiau Defnyddwyr

Y Ffederasiwn Masnachwyr Cig a Bwyd Cenedlaethol
Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched
Fforwm Cenedlaethol y Galon
Y Fforwm Gordewdra Cenedlaethol
Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol
Y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol
Natural England
Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol
Nestle UK Cyfyngedig
Iechyd y GIG yn yr Alban
Nisa-Today's (Holdings) Cyf
Northern Foods ccc
Cymdeithas Masnach Grawn Gogledd Iwerddon
Cymdeithas Cynhyrchwyr Pysgod Gogledd Iwerddon
Cymdeithas Bwyd a Diod Gogledd Iwerddon
Grŵp Cyswllt Bwyd Gogledd Iwerddon
Cymdeithas Allforwyr Cig Gogledd Iwerddon
Y Swyddfa Masnachu Teg
Swyddfa Cemegydd y Llywodraeth
Swyddfa'r Comisiynydd Plant
PepsiCo UK
Y Gyfarwyddiaeth Diogelwch Plaladdwyr
Pizza Hut (UK) Cyfyngedig
Y Cyngor Tatws
Premier Foods Cyf
Pret a Manger
Cymdeithas Berchnogol Prydain Fawr
Y Ffederasiwn Masnach Darparu
Quality Meat Scotland (QMS)
Cynghorau Ymchwil y DU
Robert Wiseman Dairies ccc
Sefydliad Ymchwil Rowett
Yr Academi Frenhinol Peirianneg
Royal Agricultural Society of England
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
Coleg Brenhinol y Ffisigwyr
Coleg Brenhinol y Milfeddygon
Sefydliad Brenhinol Iechyd yr Amgylchedd yr Alban
Sefydliad Brenhinol Iechyd y Cyhoedd a Hylendid
Y Gymdeithas Frenhinol dros Iechyd y Cyhoedd
Y Gymdeithas Frenhinol dros Gemeg
Y Gymdeithas Frenhinol dros Hybu Iechyd
Y Coleg Milfeddygaeth Brenhinol
Safefood
SALSA – Cymeradwyo Cyflenwyr Lleol Diogel
Y Gymdeithas Gwneuthurwyr Halen
Yr Ymddiriedolaeth Bwyd Ysgol

Bwyd a Diod yr Alban
Coleg Amaethyddol yr Alban
Cymdeithas Meistr Bobyddion yr Alban
Cymdeithas Cyfanwerthwyr Cig yr Alban
Ffederasiwn Masnachwyr Cig yr Alban
Sefydliad Pysgotwyr yr Alban
Cymdeithas Delwyr/Proseswyr Anifeiliaid
Hela yr Alban
Ffederasiwn Groseriaid yr Alban
Seafish
Y Gymdeithas Mathrwyr Hadau a Phroseswyr Olew
Y Ffederasiwn Lladd-dai Bach
Y Gymdeithas Cynhyrchwyr Byrbrydau, Cnau a Chreision
Sodexo (y DU ac Iwerddon)
Cymdeithas y Pridd
Somerfield Group
Spar
Spirit Group Cyfyngedig
Y Gymdeithas Strôc
Sustain Cyf
Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy
Tate & Lyle ccc
Y Bwrdd Strategaeth Technoleg
Y Gymdeithas Tenantiaid Fferm
Tesco ccc
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd
The Co-operative Group
Y Sefydliad Defnyddwyr Ewropeaidd
Y Comisiwn Bwyd
Y Cyngor Moeseg Bwyd
Yr Ymddiriedolaeth Geni Plant Genedlaethol
Y Gymdeithas Faeth
Coleg Brenhinol y Bydwragedd
Sefydliad Brenhinol Prydain Fawr
Y Gymdeithas Frenhinol
Y Biwro Siwgr
Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig
Y Sefydliad Safonau Masnach
Cyngres yr Undebau Llafur
Undeb Amaethwyr Ulster
Cymdeithas Halal y DU
Cymdeithas Iechyd y Cyhoedd y DU
Unilever UK
United Biscuits (UK) Cyf
VEGA
Yr Asiantaeth Labordai Milfeddygol
Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol
Waitrose Cyfyngedig
Wellcome Trust
Cyngor Defnyddwyr Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Which?

Whitbread Group ccc
Y Gymdeithas Masnach Gwin a Gwirodydd
Wm Morrison Supermarkets Ccc